# Rhaglen Gyflawn

**Adran y Prif Weithredwr**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 8FED RHAGFYR, 2016**

***NODER**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Lleoliad

**Siambr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 30/11/16)

**Dilwyn Williams**
**Prif Weithredwr**

www.gwynedd.llyw.cymru

**DYDD MERCHER, 30 TACHWEDD 2016**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 8 RHAGFYR 2016**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h., DYDD IAU** nesaf **, 8FED RHAGFYR, 2016 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON, GWYNEDD, LL55 1SH,** i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Prif Weithredwr

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Llais Gwynedd – Ystafell Gwyrfai
Democratiaid Rhyddfrydol - Ystafell Peris
Llafur – Cefn Siambr Dafydd Orwig

# RHAGLEN


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. COFNODION** 5 - 17

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 6 Hydref, 2016, fel rhai cywir (ynghlwm).

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

**6. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**7. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.19 o'r Cyfansoddiad.

**8. CYFLWYNIAD GAN GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Derbyn cyflwyniad gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

**9. CYFLWYNIAD AR SEFYLLFA ARIANNOL Y CYNGOR A'R CYNNYDD GYDA GWIREDDU TORIADAU HER GWYNEDD**

Derbyn cyflwyniad gan yr Aelod Cabinet Adnoddau, y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid.

**10. PREMIWM TRETH CYNGOR AR EIDDO GWAG AC AIL GARTREFI** 18 - 58

Ystyried adroddiad yr Arweinydd (ynghlwm).

**11. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2017/18** 59 - 63

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer a Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb (ynghlwm).

**12. ADDASIADAU HAWLIAU DIRPRWYEDIG A RHEOLAU GWEITHDREFN ARIANNOL** 64 - 71

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (ynghlwm).

**13. TREFNIADAU ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL 2017** 72 - 74

Derbyn cyflwyniad (gan gynnwys cyflwyniad fideo) ar y gwaith o annog a pharatoi darpar ymgeiswyr ar gyfer etholiadau Mai 2017.

# Y CYNGOR DYDD IAU, 6 HYDREF 2016

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eric Merfyn Jones (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Annwen Daniels (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Stephen Churchman, Lesley Day, Gwynfor Edwards, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Dylan Fernley, Jean Forsyth, Gareth Wyn Griffith, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Sian Wyn Hughes, Jason Humphreys, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Brian Jones, Charles W. Jones, Elin Walker Jones, John Wynn Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Michael Sol Owen, William Tudor Owen, Nigel Pickavance, Caerwyn Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Hefin Underwood, Ann Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams, Owain Williams, R. H. Wyn Williams a Mandy Williams-Davies.

**Swyddogion yn bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr – Gwasanaethau / Dirprwy Swyddog Monitro), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democrataidd), Anthony Williams (Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad) (ar gyfer eitem 9 ar y rhaglen), Gareth James (Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu) (ar gyfer eitem 10 ar y rhaglen) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Hefyd yn bresennol:-** Dr Einir Young (Cadeirydd y Pwyllgor Safonau) (ar gyfer eitem 11 ar y rhaglen)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Endaf Cooke, Craig ab Iago, Anwen Davies, Trevor Edwards, Aled Evans, Gweno Glyn, Simon Glyn, Chris Hughes, Anne Lloyd Jones, Dyfrig Jones, Linda A.W.Jones, W.Roy Owen, Peter Read, Glyn Thomas, Hefin Williams a John Wyn Williams.

**1. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 30 Mehefin, 2016 fel rhai cywir.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn eitem 15(a) ar y rhaglen – Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Owain Williams, am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Elwyn Edwards - oherwydd ei fod yn aelod o'r Orsedd.
- Y Cynghorydd Aeron M.Jones – oherwydd bod y cynnig yn trafod unigolyn sy'n gweithio gydag ef.

'Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**Croeso**

Croesawyd 3 aelod newydd, sef y Cynghorwyr Dylan Fernley, Gareth Griffith ac Edgar Owen, i'w cyfarfod cyntaf o'r Cyngor llawn.
Llongyfarchiadau

- Tîm Pêl droed Cymru ar gyrraedd rownd gynderfynol Euro 2016.
- Pawb o Wynedd a fu'n llwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Y Fenni eleni.
- Pwyllgor Meirion ar eu trefniadaeth o'r Sioe Frenhinol eleni ac i bawb o Wynedd a fu'n llwyddiannus yno.
- Trefnwyr Treialon Rhyngwladol Cŵn Defaid a gynhaliwyd ar dir Sandilands, Tywyn, fis Medi. Enillodd Tîm Cymru, gyda'u Capten, Medwyn Evans o Lanfachreth, Dolgellau, bencampwriaeth y pum gwlad yno eleni.

Hefyd, y pencampwyr byd canlynol o Ward Corris / Mawddwy:-

- Elfyn Evans ar ennill Pencampwriaeth Ralio Prydain ugain mlynedd ar ôl i'w dad, Gwyndaf Evans, ennill yr un bencampwriaeth. Nodwyd hefyd bod Elfyn ar hyn o bryd yn ennill Pencampwriaeth R2 ym Mhencampwriaeth y Byd.
- Osian Pryce ar ennill Pencampwriaeth y Byd i yrwyr ifanc.
- Rachel Atherton ar ennill Pencampwriaeth y Byd am feicio mynydd.

**Materion Eraill**

Diolchwyd i holl staff y Cyngor wnaeth ymateb i drafferthion parcio Gwŷl Rhif 6. Nodwyd y bu ymdrechion arbennig gan weithlu'r Cyngor, y gymuned yn lleol ac asiantaethau eraill fel y Groes Goch i gynnig cymorth ymarferol i nifer fawr o bobl a diolchwyd i bob un aelod o staff a fu'n cynorthwyo i geisio lleddfu effaith y tywydd gwael ar ymwelwyr i'r Ŵyl.

Yn dilyn cyflwyniad cyn y Cyngor i nodi 90 mlwyddiant Gorymdaith Heddwch drwy Gaernarfon, nodwyd y byddai Gardd Goffa'r Rhyfel Mawr a agorwyd ym mis Gorffennaf yng Nghastell Caernarfon yn parhau'n agored dros gyfnod y pabïau yn y Castell, yn ogystal ag arddangosfa Cofio Dros Heddwch, lle byddai Llyfr y Cofio - gydag enwau 35,000 o filwyr o dras neu gatrawd Cymreig a laddwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, yn cael ei arddangos.

**4. CWESTIYNAU**

**(1) Cwestiwn gan y Cynghorydd Sian Wyn Hughes**

"Yn ddiweddar mynychais gwrs ardderchog ar gyfer cynghorwyr ar y Ddeddf Llesiant newydd. 'Roedd y cwrs yn wych, ond 'roedd yn siomedig bod cyn lleied o aelodau yn bresennol.

Carwn ofyn i'r Aelod Cabinet ar gyfartaledd faint o gynghorwyr sydd yn mynychu'r cyrsiau sydd yn cael eu trefnu ar ein cyfer ar y dyddiadau sydd yn y calendr cyfarfodydd a oes ystyriaeth wedi ei roi i wneud rhai cyrsiau, fel rhai ynglŷn â deddfwriaeth bwysig yn fandadol er mwyn mynnu presenoldeb Aelodau?"

**Ateb gan y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Dirprwy Arweinydd**

*(Dosbarthwyd ateb ysgrifenedig yr Aelod Cabinet i'r aelodau ymlaen llaw.)*

"Mae yna ymateb ysgrifenedig wedi ei baratoi a ffigurau wedi ein cyrraedd ar e-bost yn dangos y canrannau ar gyfer dau fath o hyfforddiant mae'r Cyngor yn ei gynnig i aelodau. Mae'r ffigurau hynny yn dangos mai canran isel iawn mewn rhai

amgylchiadau o gynghorwyr sy'n manteisio ar hyfforddiant. 'Roeddwn yn bresennol yn yr hyfforddiant mae Sian yn cyfeirio ato ac 'roedd yn arbennig iawn ac 'roedd pob un o'r aelodau yn dod allan o'r cyfarfod hwnnw wedi cael eu hysbrydoli ac 'roedd safon y cyflwyniadau yn wych iawn. Ac mae yna elfennau o hyfforddiant o'r math yma sy'n darparu gwybodaeth angenrheidiol i gynghorwyr i ddod i benderfyniadau sydd yn ddeallus, ac anogaeth sydd yna felly i gynghorwyr fynychu'r sesiynau hyn. Yr unig beth fyddwn yn ychwanegu, fel un oedd yn gweithio'n llawn amser beth amser yn ôl ac ym mhen pella'r sir yma, 'rydw i'n cydymdeimlo gyda'r rhai hynny sy'n methu mynd i gyfarfodydd hyfforddiant. Yn wir, 'roedd yn rheol gen i, os oedd yna unrhyw hyfforddiant y tu hwnt i Borthmadog, nid oeddwn yn mynd iddo, ond chwarae teg, mae'r Cyngor yn cynnig hyfforddiant ym Mhenrhyndeudraeth er mwyn ceisio gwneud yr hyfforddiant yn fwy hygyrch i aelodau. 'Rwy'n credu hefyd bod lle i ni edrych ar sut ydym yn darparu hyfforddiant. Mae modd i ni wneud llawer iawn mwy ar y We a gallwn ddilyn a thracio'r gwaith hwnnw ac 'rwy'n credu y bydd yn rhaid i ni ddatblygu hynny ymhellach ac 'rwy'n credu hefyd, fel 'rydw i wedi dweud sawl tro yn y gorffennol, bod lle i ni ystyried gwneud sesiynau hyfforddiant yn ein fforymau ardal - tameidiau bach o hanner awr hwyrach, ond sy'n berthnasol, a byddwn yn cael cyfle i gael trafodaethau eraill ar yr un pryd felly."

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Sian Wyn Hughes**

"A fyddai'r Aelod Cabinet yn cytuno bod y canrannau hyn yn siomedig iawn ac yn fodlon gofyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd edrych ar ffyrdd o gynyddu presenoldeb aelodau mewn sesiynau hyfforddi, gan gynnwys gwneud rhai cyrsiau yn fandadol a chyhoeddi cofnod presenoldeb aelodau mewn cyrsiau hyfforddi ar wefan y Cyngor?"

**Ateb gan y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Dirprwy Arweinydd**

"'Rwy'n cytuno'n llwyr ac 'rwy'n meddwl ei fod yn fater i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'w ystyried o ddifri'. Y trafferth hefo'r gair '*mandadol'* ydi sut ydych yn cosbi'r aelod os nad ydi o'n mynd i'r hyfforddiant hwnnw? Mae hynny ychydig bach yn anodd, ond 'rwy'n sicr yn credu y dylai fod yna ystyriaeth i gyflwyno hyfforddiant mewn ffyrdd gwahanol hefyd fel ei fod ar gael i aelodau yn unrhyw le a'u bod yn gallu cofnodi os ydynt wedi mynd trwy'r hyfforddiant hwnnw ar y We. Ond yn sicr, 'rydw i'n hapus iawn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd edrych ar y mater yn drylwyr eto."

**(2) Cwestiwn gan y Cynghorydd Sion Jones**

"A oes modd i'r aelod cabinet dros adfywio egluro beth fydd dyfodol Cist Gwynedd?"

**Ateb gan y Cynghorydd Mandy Williams-Davies, Aelod Cabinet Economi a Chymuned**

*(Dosbarthwyd ateb ysgrifenedig yr Aelod Cabinet i'r aelodau ymlaen llaw.)*

"Mae Cist Gwynedd yn becyn o grantiau sy'n cael ei wireddu gan yr Adran Economi a Chymuned ac mae'n becyn gwerthfawr iawn i gefnogi gwaith cymunedol. Mae'r ateb wedi ei gylchredeg yn egluro bod swm yr arian yn dod o amryw o gyfeiriadau – o'r Cyngor, o Lywodraeth Cymru, o gwmnïau preifat ac ynni adnewyddol a hefyd yn gynyddol y cymalau buddion cymunedol sy'n cael eu rhoi i mewn. Felly mae yna sawl ffynhonnell yn bwydo. Un o'r cronfeydd mwyaf poblogaidd yw'r Gronfa Datblygu Gwirfoddol ac eleni mae £80,000 o gyfalaf a £46,000 o gyllid refeniw ar gael i'w ddosbarthu. Mae'r cyfalaf yn drefn o fidio yn flynyddol felly mae'n anodd efallai

gwarantu parhad hwnnw i'r dyfodol heblaw'r swm sydd ar gael ar hyn o bryd, ond mae'r gyllideb refeniw yn parhau yn 2017/18 fel mae'n sefyll ar hyn o bryd."

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Sion Jones**

"Oes modd i'r aelod fy sicrhau bod cynnydd yn y gwariant ar Gist Gwynedd yn y flwyddyn nesaf ac efallai eistedd i lawr hefo mi i drafod pwysigrwydd y cyllid yma i gymunedau Gwynedd?"

**Ateb gan y Cynghorydd Mandy Williams-Davies, Aelod Cabinet Economi a Chymuned**

"Fel mae wedi ei egluro yn yr ateb, nid yw Cist Gwynedd yn destun arbedion na thoriad Her Gwynedd i 2017/18 a hoffwn atgoffa'r aelod hefyd, 'roeddem i gyd yn y cyfarfod yma yn pennu toriadau poenus iawn ac yn cael dewis beth oeddem ni'n ei flaenoriaethu yn y gweithdai. Bu i ni fel Cyngor gymeradwyo'r pecyn. 'Roedd toriad o hanner i un darn o gronfa'r gist yma wedi ei gymeradwyo oherwydd 'rwy'n cofio i'r aelod ddatgan ei bryder yn y fan honno, ond efallai ein bod i gyd yn deall bod yna ddewis wedyn, os oeddem yn arbed rhywbeth bod yna rywbeth arall yn dod yn ôl ac ni chynigiodd yr aelod unrhyw beth arall yn ôl, os cofiaf yn iawn. Serch hynny, mae hanner y refeniw yn dal ar gael a rhaid i ni gofio hefyd bod arbediad wedi dod i'r swyddogion cefnogi adfywio sy'n helpu i ddenu mwy o grantiau i'r cymunedau gyda help y gronfa yma."

**(3) Cwestiwn gan y Cynghorydd Louise Hughes**

"A oes modd cael diweddariad o'r sefyllfa bresennol ynglŷn â dyfodol toiledau cyhoeddus yng Ngwynedd?"

**Ateb gan y Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Amgylchedd**

*(Dosbarthwyd ateb ysgrifenedig yr Aelod Cabinet i'r aelodau ymlaen llaw.)*

"Mae'r cwestiwn ychydig yn gynamserol. 'Rydych yn ymwybodol ein bod yn edrych ar doriad o gau 50 allan o 73 o doiledau ond ein bod, ar ôl y penderfyniad a gymerwyd ym mis Mawrth, wedi dod i fyny hefo cynllun amgen ac mae'r cynllun hwnnw'n gwireddu'r arbediad o bron i £250,000. Aethom â hwnnw i'r pwyllgor craffu cyn iddo fynd i'r Cabinet a bu i'r Cabinet gymeradwyo ein bod yn symud ymlaen hefo'r cynllun amgen. Mae'r cynllun amgen yn gofyn i gynghorau cymuned gyfrannu at eu toiledau lleol ac 'rydym wedi bod allan yn siarad hefo cynghorau cymuned a byddwn yn parhau i wneud hynny. Mi oedd yna ofyn iddynt ddod erbyn diwedd mis Medi hefo'u penderfyniad hwy, os oeddent yn bwriadu cyfrannu ai peidio. Os oedden nhw'n dweud nad oedden nhw ddim, 'roeddem wedyn yn gorfod ystyried os oedd y toiledau hynny'n cau. Mae'n gynamserol i ni ddod i benderfyniad oherwydd dim ond wythnos diwethaf oedd diwedd mis Medi ac felly mae yna waith yn cychwyn ac 'rydym hefyd wedi cael ceisiadau i ni ymestyn y dyddiad fel bod y cynghorau yn medru cyfarfod a dod i benderfyniad. 'Rwy'n falch o ddweud bod yna rai wedi dod yn ychwanegol i'r rhai oedd gennym ar ddiwedd y mis. 'Rydym yn bwriadu trafod hefo'r cynghorau yma sy'n fodlon symud ymlaen i edrych ar gymryd y gwasanaeth drosodd a byddwn hefyd yn edrych i mewn i'r toiledau cymunedol – mae yna 36 o'r rheini yn y sir ar hyn o bryd, ond mae'r ateb a ddosbarthwyd yn gynhwysfawr."

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Louise Hughes**

"Fedrwch chi gadarnhau bod gweithrediadau Cyngor Gwynedd yn gwbl gyfreithlon ac ydi awdurdodau lleol eraill yng Nghymru yn gwneud yr un peth?"

**Ateb gan y Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Amgylchedd**

"Gallaf gadarnhau bod hyn yn hollol gyfreithlon a hefyd bod yna lawer o awdurdodau eraill yn gweithredu yn yr un ffordd â ni."

## 5. CYFLWYNO DEISEB

Cyflwynodd y Cynghorydd Stephen Churchman ddeiseb i'r Cadeirydd ar ran 62 o ddefnyddwyr Canolfan Pentrefelin yn gofyn am symud yr arwydd 40mya / 60mya i'r pentref yn ôl i gyfeiriad Porthmadog, at yr arwydd '*Pentrefelin'* o leiaf, er mwyn caniatáu i draffig sy'n dod o gyfeiriad Porthmadog ar gyflymder o 60mya gael amser i arafu cyn cyrraedd mynedfa / allanfa'r Ganolfan.

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelod am y ddeiseb gan nodi y byddai'n ei throsglwyddo i sylw'r adran berthnasol.

## 6. ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2015/16

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn argymell i'r Cyngor gymeradwyo'r ddogfen yn ddarlun cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2015/16, a'i fabwysiadu.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Prif Weithredwr a'r tîm o swyddogion hynny fu ynghlwm â'r gwaith.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau neu gynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif faterion a ganlyn:-

- Cyfeiriwyd at yr hawliau caniataol yn Lloegr i droi adeiladau gweigion ar ffermydd yn dai parhaol a holwyd oes posibilrwydd o gael yr un hawliau yng Nghymru. Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd bod y cyn-weinidog, Jane Davidson wedi mynd â deddfwriaeth drwy'r Cynulliad ar y pryd i'w wneud yn rhwyddach i gael datblygiadau, megis tŷ annedd, o gwmpas y fferm. Awgrymodd y gallai wneud rhywfaint o waith ar y cyd â'r Aelod Cabinet Cynllunio i weld a yw'r ddeddfwriaeth honno wedi creu cyfleoedd, ac os nad ydyw, gellid cyflwyno hynny fel tystiolaeth i'r Llywodraeth.
- Llongyfarchwyd y Cyngor ar gynhyrchu adroddiad cyfeillgar i'r defnyddiwr, sy'n defnyddio lluniau i amlygu ffeithiau.
- Gan gyfeirio at Farn y Panel Trigolion (tudalen 21 yn y rhaglen), pwysleisiwyd pwysigrwydd canolbwyntio ar y negyddol (e.e. yr 17% sydd o'r farn nad yw'r Cyngor yn cwrdd â'u hanghenion yn hytrach na'r 83% sy'n credu i'r gwrthwyneb) gan ddefnyddio unrhyw gwynion fel adnodd i wella'r gwasanaeth, yn unol â diwylliant Ffordd Gwynedd.
- Gan gyfeirio at Fesurau Strategol Cenedlaethol EDU/002i (canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol) ... sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd) ac EDU/002ii (canran y disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleol, ... sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd) (tudalen 41 yn y rhaglen), nodwyd y byddai'n fuddiol cael ffigur cymharol yn y dyfodol er mwyn gweld a yw'r sefyllfa'n gwaethygu ar draws yr holl ddisgyblion, neu'r grŵp yma'n unig.
- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn ag effaith colli arian Ewrop ar gyllid y Cyngor, nodwyd bod Cyngor Gwynedd wedi creu buddsoddiad o £300,000,000 o arian yn sgil cronfeydd Ewrop dros y blynyddoedd ar ffurf arian craidd / cyfatebol neu fuddsoddiad sector preifat ac 'roedd peryg' na fyddai'r sir yn gweld y fath symiau byth eto. 'Roedd sôn nad oedd ardaloedd megis Gorllewin Cymru a'r cymoedd, sydd wedi bod yn derbyn yr arian craidd yma, yn mynd i gael ystyriaeth na'u

dynodi'n achos arbennig ac 'roedd yr ardaloedd hyn angen arian sy'n cyfateb i'r hyn oedd Amcan 1 ac arian Cydgyfeiriant. Holwyd beth allai'r cynghorwyr wneud i helpu'r Cyngor. Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd y bwriadai ysgrifennu at gynrychiolydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar bwyllgor a sefydlwyd gan Brif Weinidog Cymru gan ofyn i'r cynrychiolydd gyflwyno'r llythyr i'r pwyllgor hwnnw. Gellid hefyd ysgrifennu at y Prif Weinidog ei hun ac at Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'i Is-ysgrifennydd. Gallai'r cynghorwyr hefyd godi ymwybyddiaeth o hyn yn eu cymunedau, a phe rhennid yr ohebiaeth gyda'r aelodau, gallai hyn fod yn sail i gael llythyrau gan gynghorau tref, grwpiau o gynghorau cymuned, mudiadau ayb. Nododd ymhellach y byddai'n ystyried y ffordd orau o harneisio hyn ac o gael elfen o gydweithio ar draws fel bod y neges yn gwbl glir.

- Sylwyd bod y ganran a holwyd (tudalen 22 o'r rhaglen) tua 1% o boblogaeth Gwynedd a holwyd oedd yna fwriad i gynyddu'r ffigur yma. Holwyd hefyd ynglŷn â'r trawsdoriad dynion / merched ac oedran y rhai a holwyd. Mewn ymateb, eglurodd yr Arweinydd mai Panel Trigolion Gwynedd, sy'n cynnwys tua 2,000 o bobl, oedd sail yr holiadur a'r farn ar hyn. Ychwanegodd y gellid ymchwilio i ffyrdd o ledaenu'r arolwg barn ar yr Adroddiad Perfformiad, yn enwedig dros y We a Thrydar, gan fynd ar ôl carfanau penodol, megis pobl ifanc, fel y gwnaethpwyd wrth ymgynghori ar Her Gwynedd.
- Mynegwyd pryder ynglŷn â'r tueddiad cynyddol i ddileu cytundebau amod 106 yn y Cyngor hwn ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd, i atal pobl rhag llwyddo mewn apêl, bod rhaid i'r amod fod yn gadarn yn y lle cyntaf. Ychwanegodd fod y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi edrych ar amodau 106 a thai fforddiadwy ac wedi dod i gasgliad bod y gyfundrefn yn gweithio yn eithaf da.
- Diolchwyd i staff yr ysgolion a'r Adran Addysg am y camau bras a gymerwyd i wella safonau addysg yn yr ysgolion a chyfeiriwyd at enghreifftiau penodol o'r llwyddiant hwnnw, megis y gwelliant o 13.5% yn y mesurydd TL2+ ers 2012 a'r cynnydd ym mhresenoldeb disgyblion. Cyfeiriwyd hefyd at y buddsoddiad o £56m mewn adeiladau a nodwyd y cynhelid diwrnod agored ar gyfer yr holl aelodau yn yr Ysgol Hafod Lon newydd ym Mhenrhyndeudraeth ar ddydd Sadwrn, y 19eg o Dachwedd.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad yn adlewyrchiad cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2015/16, a'i fabwysiadu.**

## 7. ADRODDIADAU BLYNYDDOL Y PWYLLGORAU CRAFFU 2015/16

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd adroddiad byr yn gosod y cyd-destun.

Cyflwynwyd - adroddiadau blynyddol y tri phwyllgor craffu ar gyfer 2015/16.

<u>Pwyllgor Craffu Corfforaethol</u>

Manylodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol, y Cynghorydd Jason Humphreys, ar gylch gorchwyl a gwaith y pwyllgor yn ystod 2015/16, gan ddiolch i'r Cyn-gadeirydd, y Cynghorydd Dyfrig Jones, aelodau'r pwyllgor a'r swyddogion am eu cefnogaeth.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Nodwyd y gallai mabwysiadu polisi o godi treth cyngor uwch ar dai haf gael effaith negyddol ar yr economi gan fod nifer o dai yn y sir na fyddai pobl leol o bosib' yn dymuno eu prynu. Mewn ymateb, nodwyd y byddai'r mater hwn ar raglen cyfarfod nesaf y pwyllgor craffu ar yr 20fed o Hydref a diau y byddai'r aelodau yn edrych i mewn yn fanwl i'r materion.
- Mynegwyd pryder bod cwmnïau lleol yn aflwyddiannus wrth dendro am gontractau, megis i gyflenwi bwydydd ysgolion, ac ati, a phwysleisiwyd pwysigrwydd cadw'r

budd yn lleol. Mewn ymateb, cytunwyd bod angen cadw ar ben y sefyllfa a chadarnhawyd y byddai sylw'r aelod yn cael ei gymryd i ystyriaeth. Ychwanegwyd bod y pwyllgor craffu yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar reolaeth categori a chadw'r budd yn lleol.
- Awgrymwyd y byddai'n gamgymeriad llwyr datganoli trethi busnes i'r cynghorau sir yng Nghymru, fel sy'n digwydd yn Lloegr, gan fod llawer o lefydd ar eu colled oherwydd hynny a bod Gwynedd yn derbyn setliad teg o ran trethi busnes.

Pwyllgor Craffu Cymunedau

Manylodd Cyn-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau, y Cynghorydd Angela Russell, ar gylch gorchwyl a gwaith y pwyllgor yn ystod 2015/16 gan ddiolch i'r Cadeirydd presennol, y Cynghorydd Caerwyn Roberts, aelodau'r pwyllgor a'r swyddogion am eu cefnogaeth.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Nodwyd bod y drefn newydd o gasglu gwastraff gweddilliol bob tair wythnos yn gweithio'n dda ar y cyfan, ond bod angen cadw mewn cof yr angen am hyblygrwydd, e.e. mewn ardaloedd dwysedd tai uchel.
- Croesawyd y ffaith bod yr Aelod Cabinet wedi derbyn holl argymhellion yr Ymchwiliad Craffu Digartrefedd.
- Holwyd sut 'roedd y pwyllgor craffu yn teimlo ynglŷn â'r newidiadau gyda'r biniau brown. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd y canlyniadau'n hysbys eto, ond bod rhaid profi'r drefn a gweld sut mae pethau'n datblygu. 'Roedd yn rhaid i'r Cyngor uchafu'r deunydd sy'n cael ei ailgylchu rhag llygru'r ddaear a rhaid cofio hefyd bod y Cyngor yn wynebu toriadau enfawr.
- Nodwyd bod angen atgoffa'r gweithlu i gau'r fflapiau ar ochr y lorïau ailgylchu er mwyn atal deunydd ailgylchu rhag disgyn ar hyd ochrau'r ffyrdd. Mewn ymateb, nodwyd y gosodwyd seliau newydd ar y lorïau erbyn hyn.

Pwyllgor Craffu Gwasanaethau

Manylodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau, y Cynghorydd Beth Lawton, ar gylch gorchwyl a gwaith y pwyllgor yn ystod 2015/16, gan ddiolch i'r Cyn-gadeirydd, y Cynghorydd Peter Read, aelodau'r pwyllgor a'r swyddogion am eu cefnogaeth.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Pryder ynglŷn â goblygiadau Amddifadu o Ryddid a'r risg ariannol i'r Cyngor. Mewn ymateb, nodwyd bod aelodau'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau wedi derbyn hyfforddiant yn y maes ac wedi argymell bod yr un hyfforddiant yn cael ei gynnig i bob cynghorydd. 'Roedd y Cyngor wedi adnabod y risg ac yn gweithio ar hyn a byddai'r pwyllgor craffu hefyd yn cadw golwg ar yr hyn sy'n digwydd.
- Pryder ynglŷn â phenderfyniad y Cabinet i gyfrannu swm o £750,000 tuag at y pwyllgorau ardal yn y maes addysg. Mewn ymateb, nodwyd y byddai cyfle i'r aelodau ofyn mwy o gwestiynau am hyn yn y Cyfarfod Paratoi nesaf a chredid y byddai yna gynrychiolaeth o'r pwyllgor craffu ar weithgor yn y maes hwn.

Diolchodd yr Arweinydd i gadeiryddion, is-gadeiryddion ac aelodau'r tri phwyllgor craffu am eu holl waith.

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR GWYNEDD 2015/16**

Croesawyd Dr Einir Young, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, i'r Cyngor i gyflwyno adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau am 2015/16.

Manylodd Dr Einir Young ar brif bwrpas y pwyllgor o hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd a chynghorau cymuned a thref Gwynedd gan gyfeirio at aelodaeth y pwyllgor a'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2015/16. Diolchodd i'r Swyddog Monitro a'r swyddogion eraill sy'n rhoi cefnogaeth i'r pwyllgor.

Diolchwyd i Dr Einir Young am gyflwyno'r adroddiad.

**9. DEDDF YMDDYGIAD GWRTH-GYMDEITHASOL, TROSEDD A PHLISMONA 2014**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn hysbysu aelodau'r Cyngor o newidiadau a wnaed i Gynllun Dirprwyo Swyddogion y Cyfansoddiad er mwyn gweithredu Deddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014.

**10. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn adolygu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor yn sgil ethol tri aelod newydd ar y Cyngor a dau aelod yn newid eu grwpiau gwleidyddol.

Eglurwyd:-

- Nad oedd yr argymhelliad yn llwyr adlewyrchu'r cydbwysedd gwleidyddol, a hynny yn sgil penderfyniadau blaenorol gan y Cyngor ar sail trafodaethau yn y Grŵp Busnes i geisio cadw profiad ac arbenigedd o fewn gwahanol bwyllgorau gyda dim ond ychydig fisoedd i fynd tan yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai.
- Yn unol â'r drefn, y byddai'n rhaid i'r aelodau bleidleisio dros y cynnig yn ddiwrthwynebiad.
- Bod y newidiadau mwyaf diweddar i'r cydbwysedd gwleidyddol yn golygu bod sail i adolygiad a fyddai'n arwain at newid yn aelodaeth y Cyngor ar Bwyllgor Parc Cenedlaethol Eryri, ond gan mai dim ond ychydig fisoedd sydd ar ôl tan ddiwedd oes y Cyngor hwn, awgrymid y dylid glynu at y dyraniad a wnaed ym Mai 2012.

Galwyd am bleidlais gofrestredig ar y cynnig a phleidleisiodd mwy na chwarter yr aelodau o blaid hynny.

Mynegwyd pryder gan aelod bod Grŵp Llais Gwynedd yn colli eu hunig sedd ar y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Lleol. Fel deilydd y sedd honno, oedd hefyd yn Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol, sy'n ymdrin â materion staff, nododd mai drwy'r Cyd-bwyllgor mae'n cael gwybodaeth ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd yn y maes. Mewn ymateb, eglurodd yr Arweinydd mai mathemateg oedd hyn a chan fod Grŵp Llais Gwynedd wedi colli sedd ar y Cyngor a'r Grŵp Annibynnol wedi ennill sedd, 'roedd yn rhaid i hynny gael ei adlewyrchu yn y seddi sy'n cael eu dyrannu. Rhybuddiodd, petai'r aelod yn pleidleisio yn erbyn yr argymhelliad, y byddai Grŵp Llais Gwynedd yn colli'r sedd beth bynnag a hefyd yn colli sedd ar Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Nododd hefyd na chynhelir cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Lleol rhwng hyn a'r etholiadau ym mis Mai.

Mynegwyd cefnogaeth i'r argymhelliad gan sawl aelod.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y cynnig:-

**O blaid y cynnig: (54)** Y Cynghorwyr:- Stephen Churchman, Annwen Daniels, Lesley Day, Gwynfor Edwards, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Thomas Ellis, Alan Jones Evans, Dylan Fernley, Jean Forsyth, Gareth Wyn Griffith, Gwen Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Sian Wyn Hughes, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Brian Jones, Charles W. Jones, Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones, John Wynn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dilwyn

Lloyd, June Marshall, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Michael Sol Owen, Nigel Pickavance, Caerwyn Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Hefin Underwood, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams, R. H. Wyn Williams a Mandy Williams-Davies.

**Atal: (0)**

**Yn erbyn: (0)**

**PENDERFYNWYD**
**(a) Mabwysiadu dyraniad seddau ar bwyllgorau'r Cyngor yn unol â'r tabl isod:-**

**PWYLLGORAU CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | 9 | 5 | 2 | 0 | 1 | 1 |
| Cymunedau | 10 | 5 | 1 | 1 | 1 | |
| Gwasanaethau | 10 | 4 | 2 | 1 | | 1 |
| Archwilio | 10 | 5 | 2 | 1 | | |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democratiaeth | 8 | 5 | 1 | 1 | | |
| Iaith | 8 | 4 | 2 | 1 | | |
| Cynllunio | 8 | 4 | 1 | 1 | 1 | |
| Trwyddedu Canolog | 8 | 5 | 2 | | | |
| Apelau Cyflogaeth | 3 | 1 | 1 | 1 | | 1 |
| Penodi Prif Swyddogion | 8 | 4 | 1 | 1 | 1 | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y seddau** | **82** | **42** | **15** | **8** | **4** | **3** | **154** |

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 3 | 2 | 0 | 1 | 1 | |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 3 | 0 | 1 | | 1 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 3 | 2 | 1 | | | 1 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 4 (3 sedd ac un eilydd) | 2 | 1 | 1 | | |
| CYSAG | 4 | 2 | 1 | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Seddau** | **102** | **53** | **18** | **11** | **5** | **5** | **194** |

**ATODIAD B**

| **Corff** | **Plaid Cymru** | **Annibynnol** | **Llais Gwynedd** | **Llafur** | **Democratiaid rhyddfrydol** | **Aelod unigol** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Parc Cenedlaethol Eryri (rŵan) | 4 | 2 | 2 | 1 | 0 | 0 |
| Newid yn unol â'r cydbwysedd | 5 | 2 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Tân | 3 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |

Gofynnodd yr Arweinydd i neges fynd i Raymond Harvey, Swyddog Cofrestru a'r tîm yn diolch iddynt am eu gwaith aruthrol dros y misoedd diwethaf yn gweinyddu tri is-etholiad, etholiad y Cynulliad a Refferendwm Ewrop ac yn nodi y bu eu cyfraniad yn amhrisiadwy.

**11. ABSENOLDEB AELOD O'R CYNGOR**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Peter Read o gyfarfodydd y Cyngor oherwydd ei fod yn anhwylus ers tro ac yn derbyn triniaeth sydd wedi effeithio, ac yn debygol o barhau i effeithio, ar ei allu i fynychu cyfarfodydd ffurfiol o'r awdurdod.

Cytunwyd y byddai Arweinydd Grŵp Llais Gwynedd yn anfon gair at y Cynghorydd Peter Read a bod y Cyngor yn gwneud hynny'n swyddogol hefyd.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo absenoldeb y Cynghorydd Peter Read o gyfarfodydd y Cyngor oherwydd amgylchiadau personol, yn unol ag Adran 85 Deddf Llywodraeth Leol 1972, gan ei alluogi i barhau i fod yn aelod o Gyngor Gwynedd.**

**12. RHYBUDDION O GYNNIG**

(a) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Owain Williams o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

**"'Rwy'n cynnig ein bod yn datgan siomedigaeth wrth Orsedd yr Eisteddfod Genedlaethol am wrthod cydnabod cyfraniad aruthrol ein tîm pêl droed cenedlaethol tuag at ein hunaniaeth a'n hunan-barch fel cenedl, drwy wrthod eu cydnabod a'u hanrhydeddu adeg yr Eisteddfod olaf yn y Fenni.**

**Oherwydd hyn, galwn arnynt i ail ystyried ac i roddi i'r tîm bob anrhydedd maent yn ei haeddu, a hyn ar y cyfle cyntaf."**

Eglurodd aelod bod rhaid i aelod o'r Orsedd enwebu / eilio rhywun i gael eu derbyn i'r Orsedd erbyn y dyddiad cau bob blwyddyn ac nid oedd y ffaith nad oedd neb wedi enwebu / eilio'r tîm pêl droed hyd yma yn gyfystyr â dweud bod yr Orsedd wedi gwrthod eu hurddo. Hefyd, nid oedd gan y Cyngor ddylanwad ar yr Orsedd, sy'n gorff annibynnol. Yn wyneb hynny, cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i ddiwygio'r cynnig fel a ganlyn:-

"Bod y Cyngor yn llongyfarch Tîm Pêl Droed Cymru ar eu llwyddiant diweddar yng nghystadleuaeth Ewrop. Yn benodol, ymfalchïwn yn eu llwyddiant i uchafu'r Gymraeg a hunaniaeth Cymru a rhoi iddi ei lle priodol fel ein hiaith genedlaethol yn rhyngwladol. Ein neges glir ni iddyn nhw ydi yn syml, diolch. Yn wyneb y ffaith nad oes gan y Cyngor unrhyw ddylanwad ar weithrediadau mewnol yr Orsedd, anogwn aelodau o'r Orsedd i ystyried anrhydeddu'r tîm neu unigolion allweddol o fewn y gymdeithas bêl-droed pan ddaw cyfle am eu cyfraniad."

Mynegodd sawl aelod eu cefnogaeth i'r egwyddor o anrhydeddu'r tîm pêl droed mewn rhyw ffordd am lwyddo i roi Cymru ar y map.

Cytunodd cynigydd y cynnig gwreiddiol i ddiwygio'r cynnig ar y llinellau a nodwyd gyda chaniatâd y Cyngor a'r eilydd.

Pleidleisiwyd ar y cynnig diwygiedig, ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn llongyfarch Tîm Pêl Droed Cymru ar eu llwyddiant diweddar yng nghystadleuaeth Ewrop. Yn benodol, ymfalchïwn yn eu llwyddiant i uchafu'r Gymraeg a hunaniaeth Cymru a rhoi iddi ei lle priodol fel ein hiaith genedlaethol yn rhyngwladol. Ein neges glir ni iddyn nhw ydi yn syml, diolch. Yn wyneb y ffaith nad oes gan y Cyngor unrhyw ddylanwad ar weithrediadau mewnol yr Orsedd, anogwn aelodau o'r Orsedd i ystyried anrhydeddu'r tîm neu unigolion allweddol o fewn y gymdeithas bêl-droed pan ddaw cyfle am eu cyfraniad.**

(b) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Dyfed Edwards o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

**"Yn dilyn y Refferendwm diweddar ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd nodwn fel Cyngor fod pobl Gwynedd wedi pleidleisio yn glir i barhau yn aelodau o'r UE er i Gymru a gweddill gwledydd Prydain bleidleisio yn erbyn. Yn sgil y canlyniad yma, ail-ddatganwn fel Cyngor ein bod yn falch o fyw mewn cymdeithas amrywiol a goddefgar.**

**Nid oes gan hiliaeth, senoffobia a throseddau casineb unrhyw le yng Ngwynedd. Rydym fel Cyngor yn condemnio hiliaeth, senoffobia a throseddau casineb ac ni fyddwn yn caniatáu casineb i fod yn dderbyniol.**

**Byddwn yn gweithio i sicrhau bod cyrff a rhaglenni lleol yn cael y cymorth sydd angen i ymladd ac atal hiliaeth a senoffobia. Rydym hefyd yn rhoi sicrwydd i bawb sy'n byw yn yr ardal hon eu bod yn aelodau o'n cymuned werthfawr."**

Galwyd am bleidlais gofrestredig, ond ni phleidleisiodd chwarter yr aelodau oedd yn bresennol o blaid hynny.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Cyfeiriwyd at erthygl ddiweddar yn y wasg ynglŷn ag ymosodiad yn ystod oriau'r dydd ar ddynes mewn maes parcio archfarchnad ym Mangor. Pwysleisiwyd bod y Cyngor hwn yn condemnio unrhyw fath o senoffobia neu droseddau yn erbyn y bobl hynny 'rydym yn eu croesawu i'n cymuned a galwyd am roi pob cefnogaeth bosib' i'r asiantaethau lleol a'r mudiadau trydydd sector sy'n cynorthwyo ffoaduriaid.
- Nodwyd bod y cynnig yn awgrymu bod pawb a bleidleisiodd i adael yr Undeb Ewropeaidd yn euog o hiliaeth, senoffobia a throseddau casineb. I'r gwrthwyneb, nodwyd bod y cynnig yn tynnu sylw at y ffaith bod rhai pobl wedi dehongli canlyniad y bleidlais fel modd i fynegi safbwyntiau hiliol.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i ddiwygio'r cynnig drwy ddileu'r rhan gyntaf sy'n cyfeirio at ganlyniad y bleidlais a chychwyn gyda'r gair "Ail-ddatganwn".

Nododd cynigydd y cynnig gwreiddiol fod y refferendwm a'r bleidlais i adael wedi esgor ar ymosodiadau ar bobl sydd wedi symud i mewn neu o dras wahanol gan fod rhai pobl wedi cymryd bod ganddynt bellach yr hawl i fod yn hiliol, lle nad oeddent cynt. 'Roedd y cynnig yn datgan bod canlyniad y refferendwm yng Ngwynedd o blaid parhau yn aelodau o gymuned Gwynedd, Cymru ac Ewrop, a mawr obeithiai y byddai'r mwyafrif yn dehongli'r cynnig felly.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant, ac fe ddisgynnodd.

Cyfeiriwyd at ddau wall ffeithiol yn y cynnig, sef:-

- *'British Isles'* yn y Saesneg – nodwyd y dylid ei gywiro i ddarllen *'UK'* gan fod Ynysoedd Prydain yn cynnwys Gweriniaeth Iwerddon.
- Nad oedd yn wir i ddweud bod gweddill gwledydd Prydain wedi pleidleisio o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd gan i'r Alban a Gogledd Iwerddon bleidleisio i aros i mewn.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant pellach i gychwyn y cynnig gyda'r frawddeg ganlynol:-

"Tra bo Cyngor Gwynedd yn cydnabod ac yn parchu canlyniad refferendwm Ewrop, 'rydym yn rhannu pryder bod lleiafrif bychan o bobl wedi cymryd y cyfle hwn i fynegi safbwyntiau hiliol yn ystod y dadleuon. Ail-ddatganwn ...."

Pleidleisiwyd ar y gwelliant, ac fe ddisgynnodd.

Pleidleisiwyd ar y cynnig gwreiddiol (gyda'r cywiriadau a nodwyd), ac fe gariodd.

**PENDERFYNWYD yn dilyn y Refferendwm diweddar ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd nodwn fel Cyngor fod pobl Gwynedd wedi pleidleisio yn glir i barhau yn aelodau o'r UE, er i Gymru a rhai rhannau eraill o wledydd Prydain bleidleisio yn erbyn. Yn sgil y canlyniad yma, ail-ddatganwn fel Cyngor ein bod yn falch o fyw mewn cymdeithas amrywiol a goddefgar.**

**Nid oes gan hiliaeth, senoffobia a throseddau casineb unrhyw le yng Ngwynedd. Rydym fel Cyngor yn condemnio hiliaeth, senoffobia a throseddau casineb ac ni fyddwn yn caniatáu casineb i fod yn dderbyniol.**

**Byddwn yn gweithio i sicrhau bod cyrff a rhaglenni lleol yn cael y cymorth sydd angen i ymladd ac atal hiliaeth a senoffobia. Rydym hefyd yn rhoi**

**sicrwydd i bawb sy'n byw yn yr ardal hon eu bod yn aelodau o'n cymuned werthfawr.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.50 y.h.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **8 Rhagfyr 2016** |
| **AELOD CABINET:** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor** |
| **TEITL:** | **PREMIWM TRETH CYNGOR AR EIDDO GWAG HIR DYMOR AC AIL GARTREFI** |
| **AMCAN:** | **Cadarnhad ffurfiol am 2017/18 o’r penderfyniadau blaenorol i beidio caniatáu disgownt i ail gartrefi a pheidio caniatáu disgownt ar eiddo gwag.**<br><br>**Cadarnhad ffurfiol am 2018/19 i beidio caniatáu disgownt i ail gartrefi a pheidio caniatáu disgownt ar eiddo gwag, a penderfynu os am godi Treth Cyngor ychwanegol ar yr eiddo yma.** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

1. Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 1998, i ganiatáu DIM disgownt i ail gartrefi.

2. Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 2009, i BEIDIO â chaniatáu disgownt ynghylch eiddo gwag.

3. Mae Adran 139 Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi ychwanegu Adrannau 12A a 12B i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 er mwyn cynnwys darpariaeth ddewisol i gynghorau i godi “premiwm” o ddim mwy na 100% ar eiddo gwag hir dymor (Adran 12A) ac ail gartrefi (Adran 12B).

4. Rhaid i’r Cyngor wneud ei benderfyniad cyntaf i godi “premiwm ail gartrefi” o leiaf un flwyddyn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi. Felly, os yw’r Cyngor am godi premiwm ar ail gartrefi o 2018/19 ymlaen, bydd rhaid i’r Cyngor llawn wneud penderfyniad cyn 31 Mawrth 2017.

5. Nid yw’r cymal “rybudd blwyddyn” yn berthnasol i eiddo gwag hir dymor, ond tybir y byddai’r Cyngor yn dymuno dod i benderfyniad, a chyflwyno’r premiwm ar gyfer rhain, ar yr un pryd ag unrhyw bremiwm ar gyfer ail gartrefi.

6. Mae Rheoliadau cyfredol yn caniatáu disgresiwn i'r Cyngor godi Treth Cyngor llawn, neu i ganiatáu disgownt o 25% neu 50% i ddosbarthau **ail gartrefi**, ac i ganiatáu disgownt 50%, neu raddfa lai o ganran, neu ddim disgownt o gwbl, ar **eiddo gwag hir dymor** sydd wedi bod yn wag ers 6 mis neu fwy.

**ARGYMHELLION**

7. **Yn ei gyfarfod ar 22 Tachwedd 2016, mae'r Cabinet wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Llawn:**

   **Ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2017/18:**

   1. **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar gyfer 2017/18 yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i'r ddau ddosbarth o ail gartrefi (dosbarthau A a B) fel a ddiffinnir yn Rheoliadau Treth Cyngor (Dosbarthau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) 1998.**

   2. **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt yn 2017/18 yng nghyswllt eiddo gwag (dosbarth C).**

   **Ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2018/19:**

   3. **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar gyfer 2018/19 ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**

   4. **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 50% ar ail gartrefi dosbarth B ar gyfer 2018/19, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**

   5. **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 50% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy ar gyfer 2018/19, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**

8. Mae Taflen Benderfyniad y Cabinet wedi ei gynnwys fel Atodiad 1.

**CYFLWYNIAD**

9. At bwrpasau casglu Treth Cyngor, mae rheoliadau yn categoreiddio ail gartrefi i ddau ddosbarth, sef dosbarthau A a B. Dosbarth C sy'n cyfeirio at eiddo gwag:

   - **Dosbarth A** - Ail gartrefi sy'n ddiddeiliad ac wedi'u dodrefnu lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf mewn cyfnod o 12 mis.
   - **Dosbarth B** - Ail gartrefi sy'n ddiddeiliad ac wedi'u dodrefnu.
   - **Dosbarth C** - Yn ddiddeiliad a heb eu dodrefnu ac wedi bod felly am gyfnod o dros 6 mis.

10. Ceir dolen i Rhan 139 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, sy'n addasu Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, isod:

    http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/7/part/7/enacted/welsh

11. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn diffinio eiddo gwag hir dymor, at bwrpasau codi Premiwm Treth Cyngor, fel a ganlyn: "***a dwelling is a "long-term empty dwelling" on any day if for a continuous period of at least 1 year ending with that day it has been unoccupied, and it has been substantially unfurnished***". Er mwyn gallu codi premiwm eiddo gwag hir dymor ar unrhyw ddiwrnod, rhaid i'r eiddo fod heb ei feddiannu, a heb ei ddodrefnu, am gofnod parhaus am o leiaf un flwyddyn hyd at y dyddiad y mae'r premiwm yn daladwy.

12. Nid "ail gartrefi" na "tai haf" yw'r terminoleg a ddefnyddir yn Adran 12B, ond "anheddau gyda preswylio o bryd i'w gilydd (*dwellings occupied periodically*)". Mae'r Ddeddf yn datgan mai'r amodau er mwyn i eiddo fod yn destun premiwm Treth Cyngor "ail gartref" yw, "***there is no resident of the dwelling, and the dwelling is substantially furnished***". Hynny yw, nad yw'r eiddo yma yn brif gartref i unrhyw un, ond mae wedi cael ei ddodrefnu. Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth i allu gwahaniaethu ar sail lle mae'r perchennog yn byw, neu os yw'n cael ei ddefnyddio at bwrpasau gwyliau.

13. Mae'r Ddeddf addasedig yn cynnwys darpariaeth sy'n rhoi'r hawl i Weinidogion Cymru gyhoeddi Canllawiau Statudol ar weinyddu'r premiwm. Cyhoeddwyd y Canllawiau hyn yn Ionawr 2016, ac maent i'w cael ar hyd y ddolen isod:

http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/localgov/160122-guidance-implementation-of-council-tax-premiums-cy.pdf

14. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n rhoi'r hawl i Weinidogion Cymru osod eithriadau penodol (mewn dosbarthiadau) lle na ellir gosod premiwm Treth Cyngor. Gwnaethant hynny trwy Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015 (SI 2015/2068) a ddaeth i rym ar 31 Ionawr 2016. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r eithriadau lle **na allwn** godi'r premiwm:

| **Dosbarthiadau o Anheddau** | **Diffiniad** | **Y math o eiddo sy'n gymwys i'r eithriad rhag talu'r premiwm** |
|---|---|---|
| Dosbarth 1 | Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth - gyda therfyn amser o un flwyddyn | Cartrefi Gwag Hir dymor ac Ail Gartrefi |
| Dosbarth 2 | Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod - gyda therfyn amser o un flwyddyn | |
| Dosbarth 3 | Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o'r brif annedd | |
| Dosbarth 4 | Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog | |
| Dosbarth 5 | Safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod. | Ail Gartrefi |
| Dosbarth 6 | Cartrefi tymhorol lle gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn | |
| Dosbarth 7 | Anheddau cysylltiedig â gwaith | |

**Tabl 1: Eithriadau lle na ellir codi Premiwm**

**OBLYGIADAU POLISI**

Ail Gartrefi

15. Yn 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cartrefi i Gymru: Papur Gwyn ar gyfer Bywyd Gwell a Chymunedau Gwell'. Roedd yn tynnu sylw at broblemau o ran cyflenwi tai ac yn cynnig rhaglen o gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r mater. Un o'r cynigion oedd rhoi pŵer dewisol i awdurdodau lleol godi cyfraddau uwch o Dreth Cyngor ar eiddo gwag hir dymor. Yn sgil pwysau gan rai awdurdodau lleol, gan gynnwys Gwynedd, i estyn pwerau o'r fath i gynnwys ail gartrefi, cynhaliwyd ymgynghoriad pellach ym mis Medi 2013 ar bwerau dewisol i awdurdodau lleol Cymru godi premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi hefyd.

16. Cyflwynodd Cyngor Gwynedd ymateb cadarnhaol a chynhwysfawr i'r ail ymgynghoriad oedd yn cefnogi cyflwyno premiwm, gan hefyd bwyso am gamau i reoli / rhwystro trosglwyddiad ail gartrefi i dai gwyliau masnachol a'r gyfundrefn treth busnes.

17. Mae'r ymateb llawn yn ymddangos yn rhifyn Tachwedd 2013 o 'Rhaeadr', sydd i'w gael wrth ddilyn y ddolen isod:

https://aelodau.wordpress.com/2013/11/25/treth-ar-ail-gartrefi-y-diweddaraf/

18. Yn ogystal â chynnig ymatebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad, mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys dadansoddiad fanwl er mwyn cefnogi safbwynt y Cyngor y dylid rhoi'r hawl i ganiatáu premiwm ar ail gartrefi. Nid oes unrhyw arwydd i awgrymu fod y sefyllfa yng Ngwynedd wedi newid yn arwyddocaol ers 2013.

19. Wrth ystyried yr opsiynau sydd gerbron y Cyngor nawr, felly, gallwn weld fod pwysau gan Cyngor Gwynedd wedi cynorthwyo i roi'r hawliau hyn i awdurdodau lleol.

Eiddo Gwag Hir Dymor

20. Mabwysiadwyd Strategaeth Tai Gwag Cyngor Gwynedd yn Chwefror 2009. Datganiad cenhadaeth y Strategaeth Tai Gwag yw: "Bydd Cyngor Gwynedd yn ymdrechu i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Ein nod yw cyfrannu at les y gymdogaeth, cynyddu'r cyflenwad tai, lleihau digartrefedd neu'r posibilrwydd o ddigartrefedd, ac ar yr un pryd, lleihau'r pwysau ar y Rhestr Aros Tai".

21. Ers Ebrill 2009, mae 100% o Dreth Cyngor wedi cael ei godi ar anheddau gwag hir dymor, yn dilyn naill ai cyfnod eithrio o 6 mis, neu gyfnod eithrio estynedig o 12 mis os oedd yr eiddo'n cael ei adnewyddu'n sylweddol. Byddai darparu unrhyw ddisgownt yn rhoi cymhelliad anffodus i berchnogion gadw anheddau yn wag. Y disgwyliad yw y byddai codi premiwm ar eiddo gwag yn gymhelliad pellach i'r perwyl hwn.

22. Mae Strategaeth Tai Partneriaeth Gwynedd 2013-17 ar wefan y Cyngor i'w gael ar hyn y ddolen isod:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%c3%afau/Tai/Strategaeth-Tai-Partneriaeth-Gwynedd-2013-17.aspx

23. Mae’r Rheoliadau sy’n caniatáu disgresiwn i'r Cyngor ganiatáu disgownt o 25% neu 50% i ddosbarthau ail gartrefi, ac i ganiatáu disgownt o hyd at 50% ar eiddo gwag hir dymor sydd wedi bod yn wag ers 6 mis neu fwy, yn parhau mewn grym.

24. Fodd bynnag, mae Cynllun Ariannol Tymor Canol y Cyngor, a setliad grant y Cyngor gan Lywodraeth Cymru, wedi’i seilio ar barhad y polisi i ganiatáu DIM disgownt, a byddai rhaid i unrhyw newid i’r polisi hwnnw gael ei ariannu gan y Cyngor. Ni fyddai caniatáu disgownt o hyn ymlaen yn opsiwn realistig.

25. Nid oes unrhyw newid deddfwriaethol a fyddai’n rhwystro’r Cyngor rhag parhau gyda’r hyn y mae wedi ei wneud ar hyd o bryd, sef codi Treth Cyngor 100% ar eiddo gwag hir dymor ac ail gartrefi.

26. Os bydd y Cyngor am godi premiwm, mae’r Treth Cyngor ychwanegol wedi ei gyfyngu i 100% o’r Treth Cyngor llawn. Hefyd, ni all y Cyngor godi premiwm Treth Cyngor os na all godi Treth Cyngor “sylfaenol” yn y lle cyntaf (e.e. ar gartrefi myfyrwyr llawn amser).

<u>Niferoedd: Ail Gartrefi</u>

27. Mae eithriad 6 yn y rhestr sy’n ymddangos yn Tabl 1 yn datgan na ellir codi premiwm ar gartrefi tymhorol lle gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn. Mae hyn yn golygu, felly, na ellir codi premiwm ar ail gartref yn nosbarth A.

28. Mae’r tabl isod yn dangos nifer yr ail gartrefi dosbarth B (h.y. y rhai y gellid codi premiwm arnynt), ar 1 Gorffennaf 2016:

| Band Treth Cyngor | Nifer Eiddo | Treth |
|---|---:|---:|
| A | 538 | £532,087 |
| B | 752 | £864,906 |
| C | 873 | £1,146,099 |
| D | 1043 | £1,538,620 |
| E | 822 | £1,481,150 |
| F | 564 | £1,201,715 |
| G | 210 | £515,831 |
| H | 25 | £73,887 |
| I | 14 | £48,292 |
| **Cyfanswm** | **4841** | **£7,402,586** |

**Tabl 2: Nifer yr Ail Gartrefi Dosbarth B**

29. Gan na ganiateir unrhyw ddisgownt i ail gartrefi, mae’r eiddo hyn yn cynhyrchu incwm Treth Cyngor o £7.4miliwn.

Niferoedd: Tai Gwag Hir Dymor


30. Ar 1 Gorffennaf 2016, dyma oedd nifer y Tai Gwag Hir Dymor:

| Band Treth Cyngor | Nifer Eiddo | Treth |
|---|---|---|
| A | 339 | £ 335,588 |
| B | 373 | £ 431,276 |
| C | 263 | £ 347,203 |
| D | 205 | £ 303,264 |
| E | 143 | £ 258,360 |
| F | 62 | £ 132,624 |
| G | 19 | £ 46,739 |
| H | 5 | £ 14,800 |
| I | 2 | £ 6,851 |
| **Cyfanswm** | **1411** | **£ 1,876,706** |

**Tabl 3: Nifer yr eiddo gwag hir dymor Dosbarth C**

31. Mae'r diffiniad o "gwag hir dymor" yn amrywio o fewn y ddeddfwriaeth. Mewn cyfrifiadau Treth Cyngor arferol (gweler y diffiniad o "Dosbarth C" ym mharagraff 9 uchod), mae eiddo yn wag yn y tymor hir os yw wedi bod yn wag am 6 mis. Fodd bynnag, at bwrpasau codi'r Premiwm, rhaid i'r eiddo fod wedi bod yn wag am o leiaf 12 mis. Mae'r 1,411 eiddo a ddangosir uchod wedi bod yn wag ers 6 mis – 1,115 o'r rhain sydd wedi bod yn wag ers blwyddyn neu fwy. Amcangyfrifir fod yr incwm Treth Cyngor cyfredol o'r 1,115 eiddo sydd wedi bod yn wag am blwyddyn neu fwy yn £1,464,706.

32. Yn gyffredinol, gwelir fod Band Treth Cyngor ail gartrefi, ac felly gwerth yr eiddo ar y farchnad agored, yn uwch na bandiau eiddo gwag, fel a amlygir yn y graff isod.




33. Mae dadansoddiad o fandiau Treth Cyngor yr Ail Gartrefi a Chartrefi Gwag Hir Dymor, fesul cymuned, i'w gael yn Atodiad 2.

34. Er fod cyfanswm yr incwm Treth Cyngor o ail gartrefi a thai gwag hir-dymor yn **£8,867,292** (£7,402,586 + £1,464,706), ni allwn ddisgwyl y byddai Premiwm o 100% yn denu yn agos at y swm yma o incwm ychwanegol. Nid yw'r cyfanswm yma yn cynnwys unrhyw un o'r eithriadau y cyfeirir atynt uchod, nac ychwaith yn ystyried yr anheddau pellach a allai drosglwyddo i fod yn unedau hunan-ddarpar, ac wrth hynny'n dod o fewn y gyfundrefn trethi busnes.

35. Er mwyn modelu effaith codi'r premiwm, rhaid gwneud cyfres o ragdybiaethau ac yna dadansoddi effaith rhain. Dyma ddau enghraifft ar sail dadansoddiad sensitifrwydd. **Pwysleisir mai at bwrpas dangosol y mae'r ffigyrau hyn**.

<u>Enghraifft 1</u>

- Premiwm: **100% o'r cychwyn**
- Nifer yr ail gartrefi ychwanegol yn trosglwyddo i fod yn unedau hunan-ddarpar (trethi busnes): **500**
- Nifer yr ail gartrefi yn newid i fod yn "brif gartref": **300**
- Nifer yr ail gartrefi sy'n cael y gwahanol ddosbarthiadau o eithriad –

  Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth (am flwyddyn) (Dosbarth 1): **200**
  Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod (am flwyddyn) (Dosbarth 2): **100**
  Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o'r brif annedd (Dosbarth 3): **50**
  Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog (Dosbarth 4): **50**
  Safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod. (Dosbarth 5): **20**
  Cartrefi tymhorol lle gwaherddir byw ar hyd y flwyddyn (Dosbarth 6): **10**
  Anheddau cysylltiedig â gwaith (Dosbarth 7): **30**
- Nifer yr eiddo gwag hir-dymor sy'n cael y gwahanol ddosbarthiadau o eithriad –

  Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth (am flwyddyn) (Dosbarth 1): **100**
  Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod (am flwyddyn) (Dosbarth 2): **50**
  Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o'r brif annedd (Dosbarth 3): **30**
  Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog (Dosbarth 4): **30**
- Nifer yr eiddo gwag hir-dymor sy'n parhau yn wag ar ôl 6 mis o godi premiwm: **90%**

**Ar sail y rhagdybiaethau uchod, byddai Treth Cyngor ychwanegol o:**

| | |
|---|---:|
| Ail Gartrefi | £4,035,822 |
| Eiddo gwag | £794,513 |
| **Cyfanswm** | **£4,830,335** |

Enghraifft 2

- Premiwm: **50% o'r cychwyn**
- Nifer yr ail gartrefi ychwanegol yn trosglwyddo i fod yn unedau hunan-ddarpar (trethi busnes): **250** (h.y. llai nag a fyddai petai'r premiwm yn 100%)
- Nifer yr ail gartrefi yn newid i fod yn "brif gartref": **150** (h.y. llai nag a fyddai petai'r premiwm yn 100%)
- Yr un eithriadau ag yn Enghraifft 1.

**Treth ychwanegol:**

| | |
|---|---:|
| Ail Gartrefi | £1,972,443 |
| Eiddo gwag | £794,513 |
| **Cyfanswm** | **£2,766,956** |

## DEFNYDDIO'R INCWM YCHWANEGOL

36. Wrth benderfynu a ddylid codi premiwm ar gartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi, dylid ystyried y ffactorau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 20 i 24 yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Yn ôl y canllawiau, bwriad y disgresiwn a roddir i awdurdodau lleol i godi premiwm yw i fod yn gyfrwng i gynorthwyo awdurdodau lleol i wneud y canlynol:

    - adfer defnydd cartrefi gwag hirdymor er mwyn darparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy; a

    - chynorthwyo awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaladwyedd cymunedau lleol.

37. Fodd bynnag, mae'r canllawiau hefyd yn nodi "**Bydd awdurdod lleol yn cael cadw unrhyw gyllid ychwanegol a gynhyrchir drwy weithredu'r premiwm a gwneir diwygiadau i gyfrifiad sylfaen y dreth er mwyn hwyluso hyn. Fodd bynnag, anogir awdurdodau i ddefnyddio unrhyw refeniw ychwanegol a gynhyrchir i gynorthwyo i ddiwallu anghenion tai lleol, yn unol â bwriadau polisi'r premiymau**." Hynny yw, tra fod anogaeth i ddefnyddio'r incwm ychwanegol i ddiwallu anghenion tai lleol, nid oes gorfodaeth i wneud hynny.

38. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cyfres o addasiadau technegol i reoliadau yn ymwneud â gosod sylfaen Treth Cyngor er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol gadw'r incwm ychwanegol a dderbynnir, heb effeithio'n andwyol ar y setliad blynyddol.

39. Bydd argymhelliad ar gyfer y defnydd o unrhyw incwm ychwanegol yn cael ei gynnwys o fewn Strategaeth Ariannol 2017/18 – 2019/20.

40. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn datgan "**dylai'r awdurdod lleol hefyd ystyried ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr etholwyr lleol, a chynnal ymgynghoriad cyn penderfynu p'un ai codi un neu'r ddau bremiwm ynteu peidio**".

41. Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar 11 Hydref 2016, ac roedd yn agored tan 7 Tachwedd 2016. Rhoddwyd yr holiadur ar wefan y Cyngor, gyda negeseuon atgoffa rheolaidd o'n cyfrifon Twitter a Facebook. Paratowyd fersiynau papur ar gyfer y llyfrgelloedd a'r tri Siop Gwynedd.

42. Rhoddwyd ystyriaeth i ohebu yn uniongyrchol â pherchnogion ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor oherwydd yr ardrawiad ariannol uniongyrchol a allai fod arnynt hwy, ond byddai hynny'n debygol o gynhyrchu canlyniad gwyrdueddol. Ymhellach, gan fod y Cyngor eisoes wedi dangos yn 2013 fod ail gartrefi yn effeithio ar y rhai sy'n byw yn nifer o'n cymunedau trwy gydol y flwyddyn, mae eu barn hwy llawn mor ddilys. Er mwyn cael canlyniad di-duedd, felly, byddai'n rhaid gohebu yn uniongyrchol â holl drigolion Gwynedd yn ogystal â pherchnogion ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor sy'n byw y tu allan i Wynedd. Nid oedd amser nac adnoddau yn caniatáu hynny.

43. Derbyniwyd 930 o ymatebion i'r holiadur. O'r rhain:

- Roedd 519 yn dweud nad oeddynt yn berchen ar ail gartref nac annedd gwag hir dymor
- Roedd 372 yn dweud eu bod yn berchen ar ail gartref
- Roedd 16 yn dweud eu bod yn berchen ar annedd gwag hir dymor
- Roedd 10 yn dweud eu bod yn berchennog ar ail gartref ac annedd gwag hir dymor
- Ni atebodd 13 y cwestiwn.

44. Mae crynodeb o ganlyniadau'r ymgynghoriad isod, wedi ei osod allan ar sail y cwestiynau yn yr holiadur.

***<u>A welwch chi reswm dros beidio codi premiwm ar Dreth Cyngor ar anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi yng Ngwynedd?</u>***

45. Cyn mynd ymlaen i ateb y cwestiwn sylfaenol "**A welwch chi reswm dros beidio codi premiwm ar Dreth Cyngor ar anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi yng Ngwynedd?**", gofynnwyd i'r rhai oedd yn cymryd rhan gadarnhau os oeddynt yn berchnogion ail gartref, eiddo gwag hir dymor, neu'r ddau. Pwysleisir nad oes unrhyw fodd o wirio cywirdeb yr ymatebion i'r cwestiwn yma. Mae'r tabl isod yn dadansoddi'r cefnogaeth neu beidio i'r Premiwm fesul perchnogaeth:

| | **A welwch chi reswm dros beidio codi premiwm ar Dreth Cyngor ar anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi yng Ngwynedd?** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A ydych chi'n berchen ar annedd gwag hirdymor neu ail gartref yng Ngwynedd?** | Dim rheswm i beidio codi Premiwm | Ni ddylid codi'r Premiwm | Heb ateb | **Cyfanswm** |
| Nac ydw | 362 | 154 | 3 | **519** |
| Ydw – ail gartref | 28 | 343 | 1 | **372** |
| Ydw – annedd gwag hirdymor | 4 | 12 | | **16** |
| Ydw – annedd gwag hirdymor ac ail gartref | 4 | 4 | 2 | **10** |
| Heb ateb | 7 | 5 | 1 | **13** |
| **Cyfanswm** | **405** | **518** | **7** | **930** |

46. Nid yw'n syndod fod mwyafrif helaeth o berchnogion ail gartrefi ac eiddo gwag yn gwrthwynebu codi Premiwm, er fod bron i 10% o'r rhai nad oedd yn gwrthwynebu yn dweud fod ganddynt eiddo perthnasol. Nodir fodd bynnag fod bron i 30% – 154 allan o 518 – o'r rhai sydd yn gwrthwynebu codi premiwm yn datgan nad oeddynt yn berchen ar eiddo o'r fath.

***<u>Nodwch ar ba lefel yn eich barn chi y byddai'n fwyaf rhesymol i godi Premiwm ar annedd gwag hirdymor neu ail gartref yng Ngwynedd (hyd at uchafswm o 100%):</u>***

47. O holi ymhellach y 405 oedd o'r farn y dylid codi Premiwm, dyma'r lefel yr oeddynt yn credu y fyddai mwyaf rhesymol i'w osod:

| **Lefel Premiwm** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---:|
| 0% | 19 |
| 10% | 3 |
| 25% | 21 |
| 30% | 2 |
| 50% | 60 |
| 50% ar dai gwag hirdymor, 25% ar ail gartrefi | 1 |
| 50%, os nad oes modd gosod lefelau amrywiol | 1 |
| 50% i 100% | 1 |
| 60% | 1 |
| Rhwng 60 a 90% | 1 |
| 75% | 31 |
| 100% | 251 |
| 200% | 5 |
| 250% | 1 |
| 500% | 1 |
| Ddim yn siŵr / dim yn gwybod | 2 |
| Heb nodi | 4 |
| **Cyfanswm** | **405** |

48. Nodir fod 19 o'r rhai a ymatebodd wedi nodi y dylid gosod premiwm, ond dylai fod ar 0%. Heblaw am yr anghysondeb hynny, gwelir fod polareiddio clir yma rhwng y rhai sydd yn gwrthwynebu unrhyw dâl ychwanegol, a'r nifer uchel sydd am weld Premiwm o 100%. Gwelir fod 7 o ymatebwyr eisiau codi mwy na'r hyn a ganiateir gan y gyfraith.

***<u>Anogir awdurdodau i ddefnyddio unrhyw refeniw ychwanegol a gynhyrchir i gynorthwyo i ddiwallu anghenion tai lleol yn unol â bwriadau polisi'r premiymau, ond nid oes rheidrwydd cyfreithiol i ddefnyddio'r refeniw ychwanegol i wneud hyn.</u>***

***<u>O gofio bod y Cyngor yn wynebu toriadau ariannol sylweddol, yn eich barn chi sut dylai'r Cyngor ddefnyddio'r incwm ychwanegol petai'r Premiwm yn cael ei gyflwyno?</u>***

49. Roedd pob ymatebydd, gan gynnwys y rhai oedd wedi ateb na ddylid codi premiwm, yn cael dewis ateb pa ddefnydd y dylid ei wneud o'r arian petai premiwm yn cael ei gyflwyno. Yr atebion oedd:

| **Sylw ar y defnydd** | **Nifer** |
|---|---|
| Dylid defnyddio'r refeniw ychwanegol i ddiwallu anghenion tai lleol | 167 |
| Dylid gwario'r refeniw ychwanegol i gefnogi gwasanaethau lleol pan mae'r Cyngor yn wynebu toriadau | 198 |
| Cyfuniad o'r ddau opsiwn uchod | 442 |
| Heb ateb | 123 |
| **Cyfanswm** | **930** |

***<u>Yn eich barn chi, petai premiwm yn cael ei godi ar Dreth Cyngor anheddau gwag hirdymor neu ail gartrefi, beth fyddai effaith hynny yng Ngwynedd ar ...</u>***

50. Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa effaith, yn eu barn hwy, fyddai cyflwyno premiwm yn ei gael ar 5 agwedd sydd yn flaenoriaethau uchel i'r Cyngor, sef yr iaith Gymraeg, yr economi leol a thwristiaeth, argaeledd tai rhent preifat, prisiau tai a nifer y tai fforddiadwy. Roedd yr ymatebion eto yn dangos pegynnu. Gwelir fod y mwyafrif o'r farn y byddai cyflwyno premiwm yn gwneud lles, ar y cyfan, i'r iaith Gymraeg ac argaeledd tai fforddiadwy, ond roedd mwyafrif clir o'r farn y byddai'r premiwm yn cael effaith negyddol ar yr economi leol ac ar dwristiaeth.

51. Er hynny, mae'r tablau isod yn dangos fod perthynas rhwng agwedd yr ymatebwyr tuag at godi premiwm a'u barn am y budd y byddai premiwm yn ei gael ar y 5 ffactor.

***<u>Yr iaith Gymraeg?</u>***

| | **Barn am yr effaith byddai codi'r premiwm yn ei gael** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Barn ar gyflwyno premiwm** | **Cadarnhaol** | **Niwtral** | **Negyddol** | **Heb ateb** | **Cyfanswm** |
| Dim rheswm i beidio codi Premiwm | 268 | 116 | 15 | 6 | 405 |
| Ni ddylid codi'r Premiwm | 14 | 335 | 158 | 11 | 518 |
| Heb ateb | 2 | 3 | | 2 | 7 |
| **Cyfanswm** | **284** | **454** | **173** | **19** | **930** |

***Yr economi leol a thwristiaeth?***

| | **Barn am yr effaith byddai codi'r premiwm yn ei gael** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Barn ar gyflwyno premiwm** | **Cadarnhaol** | **Niwtral** | **Negyddol** | **Heb ateb** | **Cyfanswm** |
| Dim rheswm i beidio codi Premiwm | 159 | 191 | 45 | 10 | 405 |
| Ni ddylid codi'r Premiwm | 19 | 28 | 460 | 11 | 518 |
| Heb ateb | 3 | 1 | 1 | 2 | 7 |
| **Cyfanswm** | **181** | **220** | **506** | **23** | **930** |

***Nifer y tai rhentu preifat sydd ar gael?***

| | **Barn am yr effaith byddai codi'r premiwm yn ei gael** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Barn ar gyflwyno premiwm** | **Cynnydd yn gyffredinol** | **Dim effaith** | **Lleihad yn gyffredinol** | **Heb ateb** | **Cyfanswm** |
| Dim rheswm i beidio codi Premiwm | 236 | 130 | 27 | 12 | 405 |
| Ni ddylid codi'r Premiwm | 70 | 265 | 159 | 24 | 518 |
| Heb ateb | 1 | 1 | 1 | 4 | 7 |
| **Cyfanswm** | **307** | **396** | **187** | **40** | **930** |

***Prisiau tai yng Ngwynedd?***

| | **Barn am yr effaith byddai codi'r premiwm yn ei gael** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Barn ar gyflwyno premiwm** | **Cynnydd yn gyffredinol** | **Dim effaith** | **Lleihad yn gyffredinol** | **Heb ateb** | **Cyfanswm** |
| Dim rheswm i beidio codi Premiwm | 27 | 149 | 220 | 9 | 405 |
| Ni ddylid codi'r Premiwm | 22 | 244 | 231 | 21 | 518 |
| Heb ateb | | 2 | 3 | 2 | 7 |
| **Cyfanswm** | **49** | **395** | **454** | **32** | **930** |

***Nifer y tai fforddiadwy yng Ngwynedd?***

| | **Barn am yr effaith byddai codi'r premiwn yn ei gael** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Barn ar gyflwyno premiwm** | **Mwy o dai** | **Dim effaith** | **Llai o dai** | **Heb ateb** | **Cyfanswm** |
| Dim rheswm i beidio codi Premiwm | 269 | 109 | 13 | 14 | 405 |
| Ni ddylid codi'r Premiwm | 34 | 393 | 63 | 28 | 518 |
| Heb ateb | 1 | 4 | | 2 | 7 |
| **Cyfanswm** | **304** | **506** | **76** | **44** | **930** |

52. Mae dadansoddiad pellach o'r sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r cwestiynau hyn wedi ei gynnwys yn Atodiad 3.

53. Cyfarfu Grŵp Ymchwiliad Craffu – Tai Gwyliau a Threthi, is-grŵp o'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol, ar 21 Tachwedd i ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad, a holi Arweinydd y Cyngor pa effaith y bydd y canlyniadau yn eu cael ar argymhelliad y Cabinet i'r Cyngor ynglŷn â chodi Premiwm.

54. Cyflwynwyd yr argymhellion canlynol gan y Grŵp i gyfarfod y Cabinet y diwrnod canlynol:

(1) Bod y Cabinet angen ystyried sut orau i ddefnyddio'r arian ychwanegol fydd yn cael ei gasglu os yw premiwm yn cael ei godi. Derbynnir na ddylid clymu dwylo'r Cyngor newydd a bod angen i'r broses ddemocrataidd ddigwydd gyda'r Cyngor newydd, yn arbennig yn wyneb y ffaith nad ydym yn gwybod beth fydd sefyllfa ariannol y Cyngor erbyn 2018/19, ond dylid o leiaf ystyried neilltuo peth o'r arian ar gyfer:-

- Cynorthwyo perchnogion tai gwag i atgyweirio eiddo er mwyn ei ddychwelyd i ddefnydd fel preswylfa.
- Ystyried gwneud mwy o waith i ddeall y sefyllfa ynghylch tai gweigion a chlymu hynny gyda'r Polisi Tai.
- Bydd angen agwedd i ddefnyddio doethineb a disgresiwn gan swyddogion lle bo'r angen, e.e. mewn amgylchiadau eithriadol.
- Ystyried buddsoddi mewn swyddi er mwyn sicrhau incwm treth i'r Cyngor trwy gryfhau trefniadau arolygu'r Cyngor ar gyfer gwirio dilysrwydd datganiadau gan berchnogion eiddo nad yw bellach yn ail gartref, neu yn wag. Efallai y gellid clymu hyn gydag arolygu eiddo eraill.

(2) Os bydd y Cyngor hwn yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i sicrhau mwy o dai fforddiadwy i bobl leol, dylid defnyddio hynny i ddylanwadu ar y Llywodraeth o ran cysoni meini prawf ar gyfer gosod unedau hunan-ddarpar i gyd-fynd â gofynion Cyllid a Thollau ei Mawrhydi, sef 105 diwrnod, a hefyd o ran newid y Gorchymyn perthnasol fel y bydd angen hawl cynllunio i newid defnydd "aelwyd" i "uned hunan-ddarpar".

(3) Tra bu i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 20 Hydref drafod amrediad o opsiynau o godi'r premiwm yn raddol fesul blwyddyn i godi premiwm uwch o'r cychwyn, 'roedd y gweithgor o'r farn y dylid troedio'n ofalus gan ystyried y risgiau ynghlwm â'r ddau begwn ac felly'n cyd-fynd â'r argymhelliad i godi premiwm o 50% ar ail gartrefi Dosbarth B a chartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy o 1 Ebrill 2018 ymlaen.

**RISGIAU**

Unedau Hunan-darpar

55. Ym Mehefin 2016, derbyniodd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ganlyniadau Ymchwiliad Craffu a gynhaliwyd ar drosglwyddiad cartrefi o'r gyfundrefn Treth Cyngor i fod yn Unedau Hunan-ddarpar sy'n talu Trethi Busnes. Ceir dolen i'r adroddiad isod:

https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s4569/Adroddiad%20yr%20Ymchwiliad%20Tai%20Gwyliau%20a%20Threthi.pdf?LLL=1

56. Cynhaliwyd yr ymchwiliad oherwydd pryder y Pwyllgor Craffu am nifer yr eiddo sy'n gwneud trosglwyddiad o'r fath. Mae'r niferoedd sydd wedi trosglwyddo yn y 5 mlynedd llawn ddiwethaf wedi eu dangos yn y tabl isod:

| Blwyddyn Ariannol | Nifer net sydd wedi trosglwyddo o Treth Cyngor i Drethi Busnes |
|---|---|
| 2011/12 | 106 |
| 2012/13 | 110 |
| 2013/14 | 82 |
| 2014/15 | 188 |
| 2015/16 | 166 |
| **Cyfanswm** | **652** |

**Tabl 4: Trosglwyddiadau Net i Unedau Hunan-ddarpar**

57. Swyddfa'r Asiantaeth Brisio, sydd yn rhan o Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, sy'n gyfrifol am benderfynu os yw eiddo'n gymwys i drosglwyddo o fod y gartref i fod yn uned hunan-ddarpar. Rhaid i Swyddfa'r Asiantaeth Brisio dderbyn tystiolaeth fod eiddo wedi bod ar gael i'w osod am 140 diwrnod o fewn y flwyddyn flaenorol gyda gwir osod am 70 diwrnod, ac fod bwriad i osod yr eiddo am 140 diwrnod yn ystod y flwyddyn nesaf. Er hynny, mynegwyd pryder gan yr Ymchwiliad Craffu am gapasiti o fewn yr Asiantaeth i gynnal gwiriadau trylwyr.

58. Mae gwir fygythiad, felly, y gallai'r tueddiad o eiddo'n trosglwyddo gyflymu petai premiwm yn cael ei gyflwyno. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i swyddfa'r prisiwr weithredu'n gadarn wrth asesu os yw eiddo'n gartref neu fusnes, a sicrhau tystiolaeth briodol i gefnogi unrhyw gais. Ymhellach, os bydd y Cyngor yn cynyddu'r dreth ar ail gartrefi, rydym yn disgwyl y byddwn yn ennill mwy yn ariannol nag y byddwn yn colli.

59. Yn ogystal â hynny, petai nifer uchel o eiddo pellach yn trosglwyddo i fod yn unedau hunan-ddarpar, mae gwir bosibilrwydd o orlenwi'r farchnad ac y byddai'n unedau sydd eisoes wedi trosglwyddo, yn ogystal â'r rhai newydd, yn ei chael yn anos i ddarparu tystiolaeth o wir osod.

Eithriadau

60. Bygythiad arall yw'r risg o berchnogion eiddo gwag hir-dymor ac ail gartrefi yn hawlio un o'r eithriadau a restrir ym mharagraff 14 uchod. Fel y gwelir, mae 4 eithriad yn bodoli ar gyfer eiddo gwag hir dymor, a 7 ar gyfer ail gartrefi. Yn wahanol i eiddo'n trosglwyddo i unedau hunan-ddarpar, byddwn yn parhau i allu codi Treth Cyngor ar yr eiddo yma, ond nid y premiwm.

61. Mae cyfyngiad amser i rai o’r eithriadau hyn. Er enghraifft, dim ond am flwyddyn y gellir hawlio eithriad am fod tŷ ar werth neu ar gael i’w osod.

Osgoi Treth

62. Rhaid i’r Cyngor fod yn ymwybodol o’r camau y gall unigolion eu cymryd i osgoi talu’r Premiwm. Bydd y Cyngor yn effro i’r rhain am yn chwilio am bob cyfle posib i sicrhau fod pawb yn talu Treth Cyngor cywir.

**ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB**

63. Fel gyda phob penderfyniad pellgyrhaeddol, rhaid i’r Cyngor roi'r ystyriaeth ddyledus i'w ddyletswyddau statudol i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru 2011 ac i'r holl ystyriaethau perthnasol eraill.

64. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn unol â’r gofynion statudol sydd ar y Cyngor. Mae’r Asesiad llawn wedi ei gynnwys yn Atodiad 4. Nid ydym yn credu fod materion cydraddoldeb penodol sydd angen tynnu sylw’r Cyngor atynt wrth ystyried y mater yma.

**DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU’R DYFODOL (CYMRU) 2015**

65. Mae dyletswydd i weithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael ei ddiwallu heb beryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Wrth weithredu yn unol â’r ddyletswydd gyffredinol yma mae angen i’r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor, bod yn integredig, cynhwysol, cydweithio ac ataliol wrth ddatblygu’r cynnig gerbron.

66. Wrth ystyried ffactorau o blaid ac yn erbyn codi Premiwm Treth Cyngor, mae ystyriaeth wedi ei roi i’r materion hyn. Mae cynnwys yr adroddiad yn dangos fod y argymhelliad i godi Premiwm wedi ei wneud yng nghyd-destun ymgais ragweithiol i gryfhau cynaladwyedd y cymunedau hynny o fewn Gwynedd sydd â nifer uchel o ail gartrefi a thai gwag hir dymor. Nodir yn arbennig y bydd y penderfyniad os am godi premiwm neu beidio yn cael ei wneud yng nghyd-destun ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ac er mwyn cymryd camau i leihau diboblogi mewn nifer o gymunedau o fewn Gwynedd.

**RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS YR ARGYMELLIAD**

67. Mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu ers sawl blwyddyn nad yw am ganiatáu unrhyw ddisgownt i ail gartrefi nac eiddo gwag hir dymor.

68. Roedd y Cyngor yn flaenllaw wrth ymateb i ymgynghoriadau blaenorol ar weithredu'r hawl i godi premiwm, ac wedi ymateb yn bositif o ran gweithredu'r hawl.

69. Mae'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol wedi craffu'r bwriad i osod premiwm yn ei gyfarfod ar 20 Hydref 2016. Mae dolen i adroddiadau'r Pwyllgor i'w cael isod:

    https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=152&mid=1660&ver=4&

70. Cytunwyd yn y cyfarfod hwnnw y byddai Gweithdy yn ystyried y mater ymhellach ar 21 Tachwedd, gyda'r canlyniad yn cael ei gyflwyno ar lafar i gyfarfod y Cabinet y diwrnod wedyn.

71. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi dangos rhaniad mewn ymatebion, gyda'r rhai sy'n berchen ar ail gartref neu eiddo gwag hir dymor yn gwrthwynebu codi premiwm tra fod mwyafrif helaeth o'r rhai sydd ddim yn berchnogion ar eiddo o'r fath, yn cefnogi'r egwyddor. Er fod nifer o sylwadau wedi cael eu cynnig o blaid ac yn erbyn codi Premiwm, nid oes unrhyw sylw wedi ei gynnig sydd wedi effeithio ar yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb.

72. Mae gan Gwynedd nifer uwch o ail gartrefi nag unrhyw sir arall yng Nghymru, ac mae astudiaethau sydd wedi eu cynnal – yn benodol astudiaeth fanwl yn 2013 – wedi dangos yr effaith negyddol y gall nifer uchel o ail gartrefi ei gael ar gymunedau.

73. Mae Strategaeth Partneriaeth Tai Gwynedd 2013-17 yn gosod y cyfeiriad ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r Cyngor eisoes wedi datgan y bydd y modd y bydd yn ymateb i'r Strategaeth yn cynnwys ystod o ymyraethau fydd yn helpu pobl allu cael mynediad i dai, gwella ansawdd tai presennol a'r gallu i ymateb i anghenion cymdeithas yn lleol. Mae'r Strategaeth ei hun yn cyfeirio at y nifer uchel o ail gartrefi sydd yng Ngwynedd, gan nodi y gyfran uchaf yn ardaloedd Meirionnydd a Dwyfor. Mae'r Strategaeth hefyd yn nodi y pwysigrwydd a roddir ar annog perchnogion i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Gwelir o'r Strategaeth fod y Cyngor yn gweithredu nifer o ffyrdd i gael eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, ond mae gosod Premiwm Treth Cyngor y arf pellach sydd ar gael erbyn hyn er mwyn gwireddu disgwyliadau Deddf Tai (Cymru) 2014.

74. Mae angen ystyried yr effaith negyddol y gall cyflwyno premiwm ar ail gartrefi ei gael ar economi Gwynedd a'r diwydiant twristiaeth yn arbennig, petai perchnogion ail gartrefi yn gwerthu a phenderfynu treulio eu gwyliau mewn llefydd eraill. Fodd bynnag, byddai hyn yn rhoi cyfle i gefnogi mathau gwahanol o lety gwyliau, sydd yn debygol o fod yn creu mwy o swyddi yn y diwydiant ymwelwyr. Mae ymatebion cyhoeddus hefyd yn dangos gwrthwynebiad i gael diwydiant twristiaeth ar unrhyw gost, os yw hynny yn golygu chwalu cymunedau a gadael pentrefi sydd yn fyrlymus yn yr haf yn wag yn ystod y gaeaf.

75. Er hynny, mae rhai ymatebion hefyd wedi dangos nad pobl sydd yn dod i Wynedd ar eu gwyliau yw holl berchnogion ail gartrefi, ond fod hefyd deuluoedd lleol sydd wedi etifeddu eiddo, ac eraill yn dod o'r ardal ond yn byw i ffwrdd oherwydd gwaith ac am gadw'r cartref teuluol yn eu meddiant.

76. Yr atebion a dderbyniodd y fwyaf o gefnogaeth yn yr ymgynghoriad cyhoeddus o safbwynt lefel y premiwm, yn nhrefn poblogrwydd, oedd 0%, 100%, 50%. Byddai argymell Premiwm o 50% ar eiddo gwag hir dymor ac ar ail gartrefi i'r Cyngor Llawn yn cynnig lefel sydd yn adlewyrchu'r farn ranedig yma, a hefyd yn gyson â'r hyn y mae awdurdodau sydd â natur tebyg yn bwriadu ei wneud:

- **Penfro**: Premiwm o 50% ar ail gartrefi; penderfyniad ar dai gwag hir dymor yn ystod 2016/17.
- **Ceredigion**: Premiwm o 25% ar dai gwag hir dymor ac ail gartrefi o 1 Ebrill 2017.
- **Ynys Môn**: Premiwm o 25% ar dai gwag hir dymor ac ail gartrefi o 1 Ebrill 2017, i'w adolygu yn ystod 2018/19.
- **Conwy**: Premiwm o 100% ar dai gwag hir dymor ac ail gartrefi o 1 Ebrill 2017 (ond y % i'w ail ystyried yn ystod 206/17).

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL AR ADRODDIAD Y CABINET

**Prif Weithredwr:**

Mae'r ateb hwn yn un dyrys a chymhleth. Wrth gwrs, rhaid cofio, fel y mae'r adroddiad yn nodi, bod y Cyngor wedi mynegi barn o blaid codi premiwm ers rhai blynyddoedd bellach. Mae'r adroddiad yn dadansoddi effaith debygol ariannol hynny ac mae hynny yn arwyddocaol iawn o ystyried yr anawsterau ariannol y mae'r Cyngor yn ei wynebu dros y blynyddoedd nesaf, beth bynnag fyddai'r penderfyniad am y defnydd o'r arian hynny pe byddai premiwm yn cael ei godi.

Mae manylder canlyniadau'r ymgynghoriad yn werth roi sylw manwl iddynt. Er enghraifft, mae llawer o fanylion am farn a fynegwyd am effeithiau posib gweithredu'r penderfyniad ar yr iaith Gymraeg, prisiau tai , yr economi ac yn y blaen. Hefyd, nid yn annisgwyl mae oddeutu 40% o'r rhai a ymatebodd yn bobl a fyddai'n cael eu heffeithio yn uniongyrchol gan y newid posib hwn. Byddai'n ddiddorol hefyd i'r Cabinet wybod pa fath o ganrannau a oedd o blaid codi premiwm mewn siroedd eraill sydd wedi ymgynghori ar y mater a beth oedd penderfyniadau'r cynghorau yn yr achosion hynny. Yn amlwg, bydd o fudd mawr i'r Cabinet glywed barn yr aelodau craffu sydd wedi bod yn edrych mewn manylder ar y maes hwn; mae gweithdy o'r aelodau hynny ar y diwrnod cyn cyfarfod y Cabinet ac adroddir yn lafar ar ei ganlyniad.

**Swyddog Monitro:**

Wrth ystyried a ddylid gweithredu'r premiwm ac ar ba raddfa mae angen ystyried amcan gwneud hynny a'r effeithiau bosib fydd yn deillio. Darperir gwybodaeth eang yn yr adroddiad ynghyd a chanlyniadau ymgynghoriad cyhoeddus ar y bwriad. Cyfeirir yn benodol hefyd at yr arweiniad statudol sydd yn cael ei ddarparu gan Ganllawiau Gweithredu Premiymau'r Dreth Cyngor ar Gartrefi Gwag ac Ail Gartrefi yng Nghymru. Wrth ffurfio argymhelliad ar gyfer y Cyngor mae gofyn i'r Cabinet gloriannu'r wybodaeth sydd gerbron gan ddal sylw at yr arweiniad statudol ynglŷn â dod i benderfyniad ar y premiwm.

**Prif Swyddog Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**PAPURAU CEFNDIR**

Deddf Tai (Cymru) 2014:

http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/7/part/7/enacted/welsh

Canllawiau Gweithredu Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru:

http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/localgov/160122-guidance-implementation-of-council-tax-premiums-cy.pdf

Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015 (SI 2015/2068):

http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/2068/made/welsh

Ymateb Cyngor Gwynedd i'r Ymgynghoriad ar Bwerau Disgresiwn i Awdurdodau Lleol i Gynyddu'r Dreth Gyngor ar Ail Gartrefi Hydref 2013:

https://aelodau.wordpress.com/2013/11/25/treth-ar-ail-gartrefi-y-diweddaraf/

Strategaeth Tai Partneriaeth Gwynedd 2013-17:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%c3%afau/Tai/Strategaeth-Tai-Partneriaeth-Gwynedd-2013-17.aspx

Cyfarfod Pwyllgor Craffu Corfforaethol, 16 Mehefin 2016:

https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s4569/Adroddiad%20yr%20Ymchwiliad%20Tai%20Gwyliau%20a%20Threthi.pdf?LLL=1

Cyfarfod Pwyllgor Craffu Corfforaethol, 20 Hydref 2016:

https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=152&mid=1660&ver=4&

Cyfarfod Cabinet 22 Tachwedd 2016

https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=133&mid=1843&ver=4&

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 22 Tachwedd 2016** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **7 Rhagfyr 2016** |

## PWNC

Eitem 8 :PREMIWM TRETH CYNGOR AR EIDDO GWAG HIR DYMOR AC AIL GARTREFI

## PENDERFYNIAD

Argymell i'r Cyngor Llawn:

Ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2017/18:

1. Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar gyfer 2017/18 yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i'r ddau ddosbarth o ail gartrefi (dosbarthau A a B) fel a ddiffinnir yn Rheoliadau Treth Cyngor (Dosbarthau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) 1998.
2. Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt yn 2017/18 yng nghyswllt eiddo gwag (dosbarth C).

Ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2018/19:

3. Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar gyfer 2018/19 ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.
4. Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 50% ar ail gartrefi dosbarth B ar gyfer 2018/19, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.
5. Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 50% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy ar gyfer 2018/19, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r Cabinet yn darparu argymhelliad i'r Cyngor ar y penderfyniad i godi premiwm treth cyngor ar ail gartrefi ac ar eiddo gwag hir dymor. Cyn argymell, mae'r Cabinet wedi pwyso a mesur effaith cyflwyno Premiwm ar yr holl rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr etholwyr lleol, ac wedi cloriannu yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus, a penderfynodd y byddai Premiwm o 50% yn lefel teg i'w argymell. Rhaid i'r Cyngor wneud ei benderfyniad cyntaf i godi premiwm treth cyngor ar "ail gartrefi" o leiaf un flwyddyn cyn dechrau'r

flwyddyn ariannol berthnasol.  Felly, cyn codi premiwm ar ail gartrefi o 2018/19 ymlaen, bydd raid i'r Cyngor llawn wneud penderfyniad cyn 31 Mawrth 2017.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Datganwyd buddiant gan y Cynghorwyr canlynol:
Cynghorydd Peredur Jenkins – berchen ar eiddo personol a rhentu eiddo busnes
Cynghorydd Dyfrig Siencyn – berchen ar ail eiddo
Cynghorydd Mandy Williams-Davies – oherwydd bod ei gŵr wedi etifeddu tŷ gwag ar ôl ei rieni

Roedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac fe adawsant y cyfarfod.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn unol â gofynion arweiniad statudol yn ystod Hydref 2016 ac adroddwyd ar y canlyniadau yn yr adroddiad.

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol a cyflwynwyd argymhellion y Grŵp Ymchwiliad o'r Pwyllgor Craffu hwnnw i gyfarfod y Cabinet.

**Atodiad 2**

**Nifer yr ail gartrefi fesul Cymuned**

| Cymuned | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 6 | 18 | 36 | 40 | 27 | 6 | 1 | | | **134** |
| Aberdyfi | 27 | 16 | 39 | 97 | 66 | 37 | 34 | 3 | 3 | **322** |
| Abergwyngregyn | | | | 4 | | 1 | | | | **5** |
| Abermaw | 38 | 40 | 24 | 23 | 15 | 5 | 3 | 1 | 2 | **151** |
| Arthog | 3 | 33 | 39 | 31 | 19 | 7 | 5 | | | **137** |
| Bala | 2 | 9 | 3 | 6 | 3 | | 1 | | | **24** |
| Bangor | 3 | 7 | 14 | 11 | 2 | 3 | 2 | 1 | | **43** |
| Beddgelert | 8 | 3 | 21 | 29 | 15 | 3 | | | | **79** |
| Bethesda | 2 | 5 | 12 | 1 | | | | | | **20** |
| Betws Garmon | 1 | 11 | 9 | 5 | 3 | | 2 | | | **31** |
| Bontnewydd | | 2 | 1 | 2 | | | | | | **5** |
| Botwnnog | 3 | 3 | 9 | 15 | 9 | 6 | | | | **45** |
| Brithdir a Llanfachreth | 2 | 3 | 20 | 16 | 15 | 3 | 1 | | | **60** |
| Bryncrug | 5 | | 9 | 1 | 4 | 4 | | | | **23** |
| Buan | 1 | 6 | 9 | 8 | 5 | 3 | | | | **32** |
| Caernarfon | | 4 | 5 | 6 | 7 | 6 | 1 | | 1 | **30** |
| Clynnog Fawr | 6 | 16 | 11 | 14 | 12 | | | | | **59** |
| Corris | 5 | 24 | 6 | 6 | 4 | 1 | | | | **46** |
| Criccieth | 3 | 9 | 24 | 16 | 20 | 14 | 5 | | | **91** |
| Dolbenmaen | 3 | 12 | 14 | 23 | 10 | 4 | 2 | | | **68** |
| Dolgellau | 12 | 18 | 25 | 11 | 5 | 8 | 1 | 1 | | **81** |
| Dyffryn Ardudwy | 2 | 12 | 29 | 17 | 18 | 9 | 1 | 1 | | **89** |
| Ffestiniog | 91 | 32 | 15 | 10 | 1 | 1 | | | | **150** |
| Harlech | 42 | 29 | 12 | 21 | 25 | 8 | 1 | | | **138** |
| Llanaelhaearn | 6 | 22 | 6 | 4 | 2 | | | | | **40** |
| Llanbedr | 4 | 4 | 6 | 19 | 9 | 2 | | | | **44** |
| Llanbedrog | 7 | 6 | 23 | 33 | 31 | 47 | 11 | | | **158** |
| Llanberis | | 12 | 16 | 8 | 3 | | 1 | | | **40** |
| Llanddeiniolen | 3 | 9 | 13 | 13 | 7 | 3 | 1 | | | **49** |
| Llandderfel | 3 | 7 | 3 | 6 | 8 | 3 | 2 | | | **32** |
| Llandwrog | 10 | 8 | 12 | 6 | 5 | 3 | | 1 | | **45** |
| Llandygai | | 1 | 7 | 8 | 6 | 2 | | | | **24** |
| Llanegryn | | 3 | 4 | 4 | 3 | 1 | | | 1 | **16** |
| Llanelltyd | 5 | 3 | 4 | 3 | 10 | 9 | 2 | 1 | | **37** |
| Llanengan | 15 | 20 | 44 | 88 | 190 | 207 | 101 | 11 | 7 | **683** |
| Llanfair | 6 | 4 | 16 | 24 | 10 | 5 | 3 | | | **68** |
| Llanfihangel-y-Pennant | 4 | 28 | 9 | 5 | 4 | 6 | 1 | | | **57** |
| Llanfrothen | | 4 | 6 | 2 | 4 | | | | | **16** |
| Llangelynnin | 2 | 10 | 7 | 11 | 11 | 7 | 2 | 1 | | **51** |
| Llangywair | | 3 | | 4 | 2 | 4 | 2 | | | **15** |
| Llanllechid | | | 4 | 2 | 1 | | | | | **7** |

| Cymuned | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanllyfni | 22 | 24 | 8 | 1 | | 2 | | | | **57** |
| Llannor | 2 | 5 | 7 | 11 | 7 | 3 | 1 | 1 | | **37** |
| Llanrug | 1 | 6 | 9 | 6 | 1 | | | | | **23** |
| Llanuwchllyn | | 6 | 3 | 4 | 4 | 4 | 1 | | | **22** |
| Llanwnda | 7 | 7 | 1 | 5 | 1 | | | | | **21** |
| Llanycil | 1 | 1 | 2 | 7 | 1 | 1 | | | | **13** |
| Llanystumdwy | 7 | 5 | 8 | 10 | 10 | 10 | 1 | | | **51** |
| Maentwrog | 1 | 17 | 9 | 11 | 5 | | | | | **43** |
| Mawddwy | | 10 | 11 | 12 | 7 | | 1 | 1 | | **42** |
| Nefyn | 13 | 37 | 42 | 81 | 71 | 33 | 5 | 1 | | **283** |
| Pennal | 11 | 9 | 12 | 6 | 2 | 2 | | | | **42** |
| Penrhyndeudraeth | 4 | 11 | 7 | 7 | 1 | 3 | | 1 | | **34** |
| Pentir | 5 | 2 | 3 | 5 | 1 | 1 | 3 | | | **20** |
| Pistyll | 3 | 24 | 4 | 6 | 10 | 2 | | | | **49** |
| Porthmadog | 6 | 48 | 67 | 129 | 33 | 23 | 7 | | | **313** |
| Pwllheli | 10 | 8 | 20 | 8 | 26 | 6 | 1 | | | **79** |
| Talsarnau | 10 | 22 | 7 | 7 | 3 | 2 | | | | **51** |
| Trawsfynydd | 21 | 3 | 2 | 3 | | 3 | | | | **32** |
| Tudweiliog | 1 | 10 | 13 | 20 | 15 | 4 | 2 | | | **65** |
| Tywyn | 79 | 24 | 42 | 34 | 12 | 11 | 1 | | | **203** |
| Waunfawr | 3 | 7 | 5 | 4 | | | | | | **19** |
| Y Felinheli | | 8 | 24 | 9 | 20 | 25 | 1 | | | **87** |
| Y Ganllwyd | 1 | 2 | 1 | 4 | 1 | 1 | | | | **10** |
| | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **538** | **752** | **873** | **1043** | **822** | **564** | **210** | **25** | **14** | **4841** |

**Nifer eiddo gwag hir dymor fesul Cymuned**

| Cymuned | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 1 | 3 | 3 | 3 | 6 | | | | | **16** |
| Aberdyfi | 6 | 4 | 5 | 7 | 5 | | 1 | | | **28** |
| Abergwyngregyn | 1 | | | 3 | | | | | | **4** |
| Abermaw | 8 | 10 | 10 | 6 | 4 | 5 | | | | **43** |
| Arthog | 2 | 2 | 5 | 3 | 1 | | 1 | | 1 | **15** |
| Bala | 16 | 12 | 5 | | 4 | 1 | 1 | | | **39** |
| Bangor | 35 | 15 | 20 | 9 | 5 | 3 | | | | **87** |
| Beddgelert | 1 | 1 | 3 | 1 | 1 | 2 | | | 1 | **10** |
| Bethesda | 9 | 16 | 16 | 3 | | | | | | **44** |
| Betws Garmon | 1 | | 1 | 2 | | | | | | **4** |
| Bontnewydd | 2 | 2 | | 2 | | | 1 | | | **7** |
| Botwnnog | 1 | 3 | 3 | 3 | 2 | 1 | | | | **13** |
| Brithdir a Llanfachreth | 1 | 3 | 1 | 1 | 2 | 1 | | 1 | | **10** |
| Bryncrug | 1 | | 1 | 1 | 4 | 1 | | | | **8** |
| Buan | | | | 3 | 2 | | | | | **5** |
| Caernarfon | 16 | 31 | 17 | 7 | 5 | 2 | | 1 | | **79** |
| Clynnog Fawr | 2 | 3 | 4 | 2 | 3 | 1 | | | | **15** |
| Corris | 4 | 7 | 1 | 2 | | | | | | **14** |
| Criccieth | 2 | 3 | 1 | 1 | 4 | 2 | 2 | | | **15** |
| Dolbenmaen | 1 | 3 | 3 | 5 | 3 | | | | | **15** |
| Dolgellau | 12 | 23 | 6 | 4 | 5 | 3 | 1 | | | **54** |
| Dyffryn Ardudwy | 1 | 2 | 6 | 7 | 3 | 1 | | | | **20** |
| Ffestiniog | 59 | 30 | 9 | 5 | 1 | 1 | | | | **105** |
| Harlech | 14 | 6 | | 1 | 1 | 3 | 1 | 1 | | **27** |
| Llanaelhaearn | 5 | 9 | 5 | 1 | 2 | | | | | **22** |
| Llanbedr | 1 | | 3 | 3 | 1 | | | | | **8** |
| Llanbedrog | 4 | 1 | 2 | | 4 | 2 | 1 | | | **14** |
| Llanberis | 7 | 11 | 7 | 2 | 1 | | | | | **28** |
| Llanddeiniolen | 4 | 19 | 5 | 8 | 1 | 2 | | | | **39** |
| Llandderfel | 1 | 3 | 2 | | 3 | 1 | | | | **10** |
| Llandwrog | 4 | 8 | 9 | 5 | 2 | 3 | 1 | | | **32** |
| Llandygai | | 1 | 1 | 6 | 3 | | 1 | | | **12** |
| Llanegryn | | 2 | | 1 | | | | | | **3** |
| Llanelltyd | 3 | 1 | 7 | | 1 | | | | | **12** |
| Llanengan | 7 | | 3 | 7 | 6 | 10 | 3 | | | **36** |
| Llanfair | | | 1 | 2 | | | | | | **3** |
| Llanfihangel-y-Pennant | | 4 | 1 | 3 | 1 | | | | | **9** |
| Llanfrothen | | 2 | 1 | | | | | | | **3** |
| Llangelynnin | | 2 | 2 | 4 | 2 | | 2 | 1 | | **13** |
| Llangywair | | 1 | | 2 | 4 | | | | | **7** |
| Llanllechid | | | 5 | 3 | | | 1 | | | **9** |
| Llanllyfni | 25 | 23 | 6 | | 1 | | | | | **55** |
| Llannor | 3 | 7 | 4 | 3 | 5 | 1 | | | | **23** |
| Llanrug | | 3 | 11 | 5 | 1 | 1 | | | | **21** |

| Cymuned | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanuwchllyn | 6 | 2 | | 3 | 3 | 1 | 1 | | | **16** |
| Llanwnda | 5 | 5 | 5 | 3 | 2 | | | | | **20** |
| Llanycil | | 2 | | 1 | | | | | | **3** |
| Llanystumdwy | 2 | 2 | 3 | 7 | 1 | 2 | | | | **17** |
| Maentwrog | 5 | 2 | 1 | 2 | | | | | | **10** |
| Mawddwy | | | 1 | 2 | 5 | 1 | | | | **9** |
| Nefyn | 6 | 7 | 5 | 12 | 3 | 3 | | | | **36** |
| Pennal | 3 | 3 | | 2 | 1 | | | | | **9** |
| Penrhyndeudraeth | 6 | 13 | 6 | 1 | 1 | | | | | **27** |
| Pentir | | 4 | 2 | 7 | 5 | | | | | **18** |
| Pistyll | | 6 | 1 | 1 | 1 | | | | | **9** |
| Porthmadog | 4 | 13 | 13 | 9 | 2 | 1 | | | | **42** |
| Pwllheli | 16 | 8 | 8 | 2 | 8 | 2 | | | | **44** |
| Talsarnau | | 5 | 4 | | 3 | | | | | **12** |
| Trawsfynydd | 11 | 1 | 1 | | | | | | | **13** |
| Tudweiliog | 3 | 2 | | 3 | 3 | 2 | | | | **13** |
| Tywyn | 9 | 13 | 6 | 9 | 1 | 1 | 1 | 1 | | **41** |
| Waunfawr | 2 | 2 | 4 | 2 | 3 | 1 | | | | **14** |
| Y Felinheli | 1 | 6 | 7 | 2 | 2 | 1 | | | | **19** |
| Y Ganllwyd | | 1 | 1 | 1 | | | | | | **3** |
| | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **339** | **373** | **263** | **205** | **143** | **62** | **19** | **5** | **2** | **1411** |

**Atodiad 3 – Sylwadau Atodol o fewn yr ymatebion i'r Ymgynghoriad**

Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar 11 Hydref 2016, ac roedd yn agored tan 7 Tachwedd 2016. Rhoddwyd yr holiadur ar wefan y Cyngor, gyda negeseuon atgoffa rheolaidd o'n cyfrifon Twitter a Facebook. Paratowyd fersiynau papur ar gyfer y llyfrgelloedd a'r tri Siop Gwynedd.

Derbyniwyd o 930 ymatebion.

Mae canlyniadau yr atebion i'w cael yn yr atodiad yma, yn ogystal â chrynodeb o'r pwyntiau a nodwyd yn y blwch ar gyfer sylwadau atodol i'r cwestiynau.

***A welwch chi reswm dros beidio codi premiwm ar Dreth Cyngor ar anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi yng Ngwynedd?***

| | **A welwch chi reswm dros beidio codi premiwm ar Dreth Cyngor ar anheddau gwag hirdymor ac ail gartrefi yng Ngwynedd?** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A ydych chi'n berchen ar annedd gwag hirdymor neu ail gartref yng Ngwynedd?** | Dim rheswm i beidio codi Premiwm | Ni ddylid codi'r Premiwm | Heb ateb | **Cyfanswm** |
| Nac ydw | 362 | 154 | 3 | **519** |
| Ydw – ail gartref | 28 | 343 | 1 | **372** |
| Ydw – annedd gwag hirdymor | 4 | 12 | | **16** |
| Ydw – annedd gwag hirdymor ac ail gartref | 4 | 4 | 2 | **10** |
| Heb ateb | 7 | 5 | 1 | **13** |
| **Cyfanswm** | **405** | **518** | **7** | **930** |

**Sylwadau Atodol**

**O blaid codi Premiwm**

- Mae ail gartrefi yn mynd â thai oddi ar bobl lleol ac yn gwneud drwg i gymunedau.
- Os gall pobl fforddio ail gartref, gallant fforddio talu treth ychwanegol.
- Mae ail gartrefi yn gwthio prisiau tai i fyny.
- Pam ddim codi Premiwm yng Ngwynedd os ydi cynghorau cyfagos i gyd yn gwneud yn barod?
- Mae tai gwag yn wastraffus ac mae angen dod â nhw yn ôl i ddefnydd.

**Yn erbyn codi Premiwm**

- Bydd yn gwneud drwg i'r diwydiant ymwelwyr.
- Ymosodiad ar bobl nad ydynt o'r ardal yw hwn.
- Nid yw perchnogion ail gartrefi yn gwneud defnydd o wasanaethau'r Cyngor.
- Dylid ystyried rhannau penodol o'r sir lle mae problemau, nid defnyddio hwn ar gyfer pob eiddo.
- Petai'r eiddo yn cael ei roi ar y farchnad ni fyddai'n gwerthu beth bynnag.
- Pobl lleol yw perchnogion nifer o'r eiddo yma, ond yn byw i ffwrdd o'r ardal oherwydd gwaith.

***<u>Nodwch ar ba lefel yn eich barn chi y byddai'n fwyaf rhesymol i godi Premiwm ar annedd gwag hirdymor neu ail gartref yng Ngwynedd (hyd at uchafswm o 100%):</u>***

| **Lefel Premiwm** | **Nifer yr ymatebion** |
|---|---:|
| 0% | 19 |
| 10% | 3 |
| 25% | 21 |
| 30% | 2 |
| 50% | 60 |
| 50% ar dai gwag hirdymor, 25% ar ail gartrefi | 1 |
| 50%, os nad oes modd gosod lefelau amrywiol | 1 |
| 50% i 100% | 1 |
| 60% | 1 |
| Rhwng 60 a 90% | 1 |
| 75% | 31 |
| 100% | 251 |
| 200% | 5 |
| 250% | 1 |
| 500% | 1 |
| Ddim yn siŵr / dim yn gwybod | 2 |
| Heb nodi | 4 |
| **Cyfanswm** | **405** |

***<u>A ddylai'r Cyngor bennu gwahanol ganrannau (hyd at uchafswm o 100%) ar sail yr hyd o amser y mae eiddo gwag hirdymor wedi bod yn wag?</u>***

- Dylai – 335
- Na ddylai – 573
- Dim ateb – 22

***Anogir awdurdodau i ddefnyddio unrhyw refeniw ychwanegol a gynhyrchir i gynorthwyo i ddiwallu anghenion tai lleol yn unol â bwriadau polisi'r premiymau, ond nid oes rheidrwydd cyfreithiol i ddefnyddio'r refeniw ychwanegol i wneud hyn.***

***O gofio bod y Cyngor yn wynebu toriadau ariannol sylweddol, yn eich barn chi sut dylai'r Cyngor ddefnyddio'r incwm ychwanegol petai'r Premiwm yn cael ei gyflwyno?***

| **Sylw ar y defnydd** | **Nifer** |
|---|---:|
| Dylid defnyddio'r refeniw ychwanegol i ddiwallu anghenion tai lleol | 167 |
| Dylid gwario'r refeniw ychwanegol i gefnogi gwasanaethau lleol pan mae'r Cyngor yn wynebu toriadau | 198 |
| Cyfuniad o'r ddau opsiwn uchod | 442 |
| Heb ateb | 123 |
| **Cyfanswm** | **930** |

**Dim cwestiwn atodol**

***<u>Yn eich barn chi, petai premiwm yn cael ei godi ar Dreth Cyngor anheddau gwag hirdymor neu ail gartrefi, beth fyddai effaith hynny yng Ngwynedd ar yr iaith Gymraeg?</u>***

| | **Barn am yr effaith byddai codi'r premiwm yn ei gael** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Barn ar gyflwyno premiwm** | **Cadarnhaol** | **Niwtral** | **Negyddol** | **Heb ateb** | **Cyfanswm** |
| Dim rheswm i beidio codi Premiwm | 268 | 116 | 15 | 6 | 405 |
| Ni ddylid codi'r Premiwm | 14 | 335 | 158 | 11 | 518 |
| Heb ateb | 2 | 3 | | 2 | 7 |
| **Cyfanswm** | **284** | **454** | **173** | **19** | **930** |

## <u>Sylwadau Atodol</u>

### Effaith Gadarnhaol

- Byddai'n cynorthwyo pobl sy'n enedigol o'r ardal i aros yma.
- Mae pentrefi cyfan yn wag dros fisoedd y gaeaf.
- Nid yw perchnogion ail gartrefi yn gwneud unrhyw ymdrech i ddysgu'r iaith.
- Er fod twristiaeth yn bwysig, nid ar gost dinistrio cymunedau.
- Gwasanaethu'r bobl sydd angen y gwasanaethau ddylai blaenoriaeth Cyngor fod.
- Byddai gwasanaethau lleol yn fwy cynaliadwy.

### Effaith Niwtral

- Ni fyddai codi'r Premiwm yn cael unrhyw effaith ar yr iaith.
- Bydd pobl yn defnyddio'r iaith o'u dewis, beth bynnag yw lefel eu Treth Cyngor.
- Nid oes unrhyw berthnasedd rhwng y Premiwm a'r Iaith.
- Mae rhagdybiaeth yn yr holiadur nad yw siaradwyr Cymraeg yn prynu ail gartrefi.
- Mae'r iaith yn cael ei ddefnyddio fel esgus i guddio rhagfarn.

### Effaith Negyddol

- Byddai llai o swyddi yn y sector twristiaeth; byddai hyn yn gorfodi siaradwyr Cymraeg i symud i ffwrdd o'r ardal i chwilio am waith.
- Bydd cael llai o dai haf yn golygu mwy o fewnlifiad parhaol.
- Petai'r eiddo yma yn cael ei roi ar y farchnad byddai pobl di-Gymraeg yn gallu eu prynu beth bynnag.

***Yn eich barn chi, petai premiwm yn cael ei godi ar Dreth Cyngor anheddau gwag hirdymor neu ail gartrefi, beth fyddai effaith hynny yng Ngwynedd ar yr economi leol a thwristiaeth?***

| | **Barn am yr effaith byddai codi'r premiwm yn ei gael** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Barn ar gyflwyno premiwm** | **Cadarnhaol** | **Niwtral** | **Negyddol** | **Heb ateb** | **Cyfanswm** |
| Dim rheswm i beidio codi Premiwm | 159 | 191 | 45 | 10 | 405 |
| Ni ddylid codi'r Premiwm | 19 | 28 | 460 | 11 | 518 |
| Heb ateb | 3 | 1 | 1 | 2 | 7 |
| **Cyfanswm** | **181** | **220** | **506** | **23** | **930** |

**Sylwadau Atodol**

**Effaith Gadarnhaol**

- Byddai ymwelwyr yn cael eu hannog i aros mewn gwestai, mannau gwersyllu ayb, gan gyfrannu at gyflogaeth lleol.
- Byddai mwy o drigolion parhaol mewn pentrefi yn cefnogi siopau bychain ayb.
- Cyfle i ddiddyfnu'r economi oddi wrth dwristiaeth – economi wan a dibynnol yw economi dwristaidd.
- Annog perchnogion i rhentu eiddo allan fel unedau gwyliau – annog mwy o ymwelwyr.

**Niwtral**

- Ni fydd newid arwyddocaol yn nifer yr ail gartrefi.
- Bydd ymwelwyr yn parhau i ddod i Wynedd fel y maent rŵan.
- Nid yw mwyafrif perchnogion ail gartrefi yn cyfrannu llawer i'r economi gan eu bod yn dod â nwyddau gyda nhw pan yn dod i aros, nid prynu'n lleol.

**Effaith Negyddol**

- Byddai hyn yn cael effaith negyddol ar y diwydiant ymwelwyr, ac yn anfon neges nad yw'r ardal eisiau ymwelwyr o gwbl.

***<u>Yn eich barn chi, petai premiwm yn cael ei godi ar Dreth Cyngor anheddau gwag hirdymor neu ail gartrefi, beth fyddai effaith hynny yng Ngwynedd ar nifer y tai rhentu preifat sydd ar gael?</u>***

| | **Barn am yr effaith byddai codi'r premiwm yn ei gael** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Barn ar gyflwyno premiwm** | **Cynnydd yn gyffredinol** | **Dim effaith** | **Lleihad yn gyffredinol** | **Heb ateb** | **Cyfanswm** |
| Dim rheswm i beidio codi Premiwm | 236 | 130 | 27 | 12 | 405 |
| Ni ddylid codi'r Premiwm | 70 | 265 | 159 | 24 | 518 |
| Heb ateb | 1 | 1 | 1 | 4 | 7 |
| **Cyfanswm** | **307** | **396** | **187** | **40** | **930** |

<u>**Sylwadau Atodol**</u>

**Cynnydd yn gyffredinol**

- Gallai annog perchnogion eiddo perthnasol i rhentu'r eiddo allan.

**Dim effaith**

- Mae angen ystyried ail gartrefi ac eiddo gwag yn wahanol yn y cyd-destun yma.
- Ni fyddai perchnogion ail gartrefi eisiau rhentu eu heiddo allan, neu'n methu oherwydd cyfyngiadau morgais ayb.
- Nid yw'r eiddo yn aml yn addas ar gyfer rhentu allan.

**Lleihad yn gyffredinol**

- Mae'n amhosib cyffredinoli.
- Byddai eiddo yn cael ei werthu yn hytrach na cael ei osod.

***Yn eich barn chi, petai premiwm yn cael ei godi ar Dreth Cyngor anheddau gwag hirdymor neu ail gartrefi, beth fyddai effaith hynny ar brisiau tai yng Ngwynedd?***

| | **Barn am yr effaith byddai codi'r premiwm yn ei gael** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Barn ar gyflwyno premiwm** | **Cynnydd yn gyffredinol** | **Dim effaith** | **Lleihad yn gyffredinol** | **Heb ateb** | **Cyfanswm** |
| Dim rheswm i beidio codi Premiwm | 27 | 149 | 220 | 9 | 405 |
| Ni ddylid codi'r Premiwm | 22 | 244 | 231 | 21 | 518 |
| Heb ateb | | 2 | 3 | 2 | 7 |
| **Cyfanswm** | **49** | **395** | **454** | **32** | **930** |

**Sylwadau Atodol**

**Cynnydd yn gyffredinol**

- Mae'r farchnad rhydd yn gweithio yn erbyn trigolion lleol gan nad yw'n bosib i drigolion lleol gystadlu gydag unigolion o'r tu allan i Wynedd sydd ag incwm llawer uwch.
- Mae galw mawr eisoes am eiddo ar gyfer gwyliau hunan-ddarpar.

**Dim effaith**

- Mae grym y farchnad yn gryfach na polisi premiwm.
- Nifer gymharol fychan sydd yna o eiddo perthnasol o'i gymharu â chyfanswm marchnad dai Gwynedd – ni fyddai eu gwerthu yn cael effaith.
- Ni all unrhyw un ragweld hyn mewn gwirionedd.

**Lleihad yn gyffredinol**

- Economeg syml – mae cynyddu trethi ar unrhyw beth am leihau'r galw amdano.
- Bydd yr eiddo'n cael ei werthu, gan leihau'r galw a felly'r pris.

***<u>Yn eich barn chi, petai premiwm yn cael ei godi ar Dreth Cyngor anheddau gwag hirdymor neu ail gartrefi, beth fyddai effaith hynny ar nifer y tai fforddiadwy yng Ngwynedd?</u>***

| | **Barn am yr effaith byddai codi'r premiwm yn ei gael** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Barn ar gyflwyno premiwm** | **Mwy o dai** | **Dim effaith** | **Llai o dai** | **Heb ateb** | **Cyfanswm** |
| Dim rheswm i beidio codi Premiwm | 269 | 109 | 13 | 14 | 405 |
| Ni ddylid codi'r Premiwm | 34 | 393 | 63 | 28 | 518 |
| Heb ateb | 1 | 4 | | 2 | 7 |
| **Cyfanswm** | **304** | **506** | **76** | **44** | **930** |

**<u>Sylwadau Atodol</u>**

**Mwy o dai**

- Mae ail gartrefi yn gwthio prisiau tai y tu hwnt i'r hyn y gall pobl lleol ei fforddio.
- Gellid defnyddio'r arian ychwanegol i adeiladu tai fforddiadwy.
- Os bydd tai Band A a Band B yn dod ar y farchnad, efallai y bydd modd fforddio rhain.
- Anogaeth i berchnogion ail gartrefi eu gwerthu.

**Dim effaith**

- Nid oes cydberthynas rhwng ail gartrefi a tai fforddiadwy.
- Mae digon o dai fforddiadwy (dan £80k) ar werth yma yn barod.
- Nid oes unrhyw dŷ yn fforddiadwy os nad oes swyddi.
- Gwrthwynebu "tai fforddiadwy" gan eu bod yn creu "ghettos".
- Efallai bydd prisiau tai i brynwyr yn gostwng, ond mae rhent preifat yn debygol o gynyddu.
- Amheuaeth y bydd yr arian ychwanegol yn mynd tuag at dai fforddiadwy.

**Llai o dai**

- Ni fydd adeiladwyr yn gallu fforddio adeiladu tai fforddiadwy newydd, gan na fyddant yn gwneud arian ar waith ar ail gartrefi.
- Mae nifer o dai ar werth yn barod – nid yw pobl eu heisiau nhw.
- Os bydd swyddi yn cael eu colli yn y sector dwristiaeth, ni fydd unrhyw dai yn fforddiadwy.

***<u>Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau pellach sydd gennych am yr ymgynghoriad hwn:</u>***

**O blaid codi Premiwm**

- Hen bryd codi mwy o dreth.
- Bydd angen plismona, gan fod y drefn eisoes yn agored i gamddefnydd.
- Bydd yn anghefnogi pobl rhag prynu ail gartrefi.
- Gan mai Gwynedd sydd â'r canran uchaf o ail gartrefi, rhaid manteisio ar hyn.
- Cefnogi'r amcan, ond rhaid cofio fod nifer o dai yn wag oherwydd fod pobl lleol wedi mynd i gartrefi preswyl, neu'r teulu wedi etifeddu eiddo.
- Nid yw gwarchod cymunedau Cymraeg brodorol yn hiliol.

**Yn erbyn codi Premiwm**

- Mae'r Cyngor am ladd yr unig diwydiant ffyniannus sydd yma.
- Mae Gwynedd angen y perchnogion ail gartrefi.
- Rhagfarn gwleidyddol sydd tu ôl i hyn, ac mae'n hiliol. Agwedd y Cyngor yw fod unrhyw beth Cymreig yn dda ac unrhyw beth Saesnig yn ddrwg.
- Mae'r penderfyniad i godi Premiwm eisoes wedi cael ei wneud; nid oes pwrpas i'r ymgynghoriad.
- Mae angen denu pobl fwy cefnog i wario eu harian yng Ngwynedd.
- Heb ail gartrefi byddai nifer o fythynnod yn adfeilion erbyn hyn.
- Nid yw'r Cyngor wedi meddwl y polisi yma trwodd yn iawn.

# ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

## PREMIWM TRETH CYNGOR AR EIDDO GWAG HIR DYMOR AC AIL GARTREFI

### 1) AWDUR(ON) YR ASESIAD

Dewi Morgan, Uwch Reolwr Refeniw a Risg

### 2) PARTNERIAID

Pwy yw eich partneriaid wrth gychwyn neu newid y polisi / cynllun / arfer? Bydd angen eu cynnwys wrth wneud yr asesiad yma.

Dim yn berthnasol

### 3) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD

1 Gorffennaf 2016

### 4) DYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD

7 Tachwedd 2016

### 5) NOD AC AMCANION Y POLISI / CYNLLUN / ARFER

Nodwch pam fod angen y polisi / cynllun / arfer. Nodwch beth mae'r Awdurdod yn gobeithio ei gyflawni drwyddo

Mae newidiadau mewn deddfwriaeth yn golygu y gall cynghorau godi "premiwm" o ddim mwy na 100% ar Dreth Cyngor eiddo gwag hir dymor ac ail gartrefi. Bwriad y disgresiwn hwn yw i fod yn gyfrwng i gynorthwyo awdurdodau lleol i adfer defnydd cartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi er mwyn darparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy, a chynorthwyo awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaladwyedd cymunedau lleol.

Mae canllawiau statudol y Llywodraeth hefyd yn nodi "Bydd awdurdod lleol yn cael cadw unrhyw gyllid ychwanegol a gynhyrchir drwy weithredu'r premiwm a gwneir diwygiadau i gyfrifiad sylfaen y dreth er mwyn hwyluso hyn. Fodd bynnag, anogir awdurdodau i ddefnyddio unrhyw refeniw ychwanegol a gynhyrchir i gynorthwyo i ddiwallu anghenion tai lleol, yn unol â bwriadau polisi'r premiymau."

Hynny yw, tra fod anogaeth i ddefnyddio'r incwm ychwanegol i ddiwallu anghenion tai lleol, nid oes gorfodaeth i wneud hynny.

## 6) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD

Ydych chi wedi ymgysylltu am y newid yn y polisi / cynllun / arfer? Beth oedd y canlyniad? Cofiwch fod hi'n ofyn statudol i ymgysylltu gyda pobl sy'n mynd i gael eu heffeithio.

| |
|---|
| Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus am 4 wythnos, rhwng 11 Hydref 2016 a 7 Tachwedd 2016. Derbyniwyd 930 o ymatebion.<br><br>Roedd barn y rhai a atebodd wedi ei rannu. Yn gyffredinol, roedd perchnogion ail gartrefi yn arbennig yn gwrthwynebu'r bwriad i godi unrhyw bremiwm, tra fod cyfran sylweddol arall yn cefnogi codi premiwm o hyd at 100%.<br><br>Nifer yr ymatebion a'u sylwadau:<br>• Dim premiwm: 518<br>• 25%: 21<br>• 50%: 60<br>• 75%: 31<br>• 100%: 249<br>• Lefel arall: 40<br>• Dim ateb: 4<br><br>Gofynnwyd am sylwadau ymatebwyr ar effaith y Premiwm ar nifer o agweddau o faterion cymdeithasol. Yr unig sylwadau oedd yn codi materion cydraddoldeb oedd honiad rhai mai bwriad codi Premiwm yw bod yn wrthun i bobl o'r tu allan i Wynedd a'i fod yn hiliol. Ni gyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r farn yma. |

## 7) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL

Gall y dystiolaeth fod yn seiliedig ar ddata lleol, rhanbarthol neu genedlaethol er enghraifft gallai fod yn adroddiad cenedlaethol, data ar ddefnydd y gwasanaeth neu ystadegau cydraddoldeb rhanbarthol.

| |
|---|
| Cynhaliwyd astudiaeth fanwl er effaith ail gartrefi ar gymunedau Gwynedd yn 2013:<br><br>https://aelodau.wordpress.com/2013/11/25/treth-ar-ail-gartrefi-y-diweddaraf/<br><br>Mae bandiau Treth Cyngor ail gartrefi yn gyffredinol uwch nag eiddo Gwynedd yn gyffredinol.<br><br>Ar 1 Gorffennaf 2016, roedd 33.8% o ail gartrefi Gwynedd ym Mand Treth Cyngor E neu uwch, o'i gymharu â 22.2% o eiddo Gwynedd yn gyffredinol. Ar y llaw arall, mae bandiau eiddo gwag hir dymor yn is. Dim ond 16.4% o'r eiddo yma sydd yn mand E neu uwch. |

## 8) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH

Nodwch unrhyw fylchau mewn tystiolaeth ac esboniwch sut yr ydych yn bwriadu eu llenwi

| |
|---|
| Rydym yn hyderus nad oes bylchau yn ein tystiolaeth. |

## 9) PERTHNASEDD AC EFFAITH

Rhaid dangos beth yw perthnasedd y polisi/ cynllun / arfer i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o'r grwpiau cydraddoldeb (nodweddion gwarchodedig). Dylid nodi'n glir beth fydd yn effaith wir neu debygol. Efallai na fydd perthnasedd nag effaith i bob un o'r dyletswyddau na'r nodweddion.

**9a)**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | Perthnasedd | Yr effaith wirioneddol neu debygol |
|---|---|---|
| **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Dim effaith | Ni fydd effaith gan mai gofyn i'r rhai hynny sydd ag ail gartref yng Ngwynedd, neu sy'n cadw eiddo gwag, i dalu mwy i goffrau'r Cyngor yw'r bwriad. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Positif | Y bwriad yw cynorthwyo'r rhai sydd yn methu cael cartrefi ar hyn o bryd. |
| **Meithrin perthnasau da** | Positif | Mae perygl y bydd drwg deimlad gan y rhai fydd yn talu'r premiwm, fydd yn achosi rhwystrau rhwng perchnogion ail gartrefi a'r rhai sydd yn byw yn yr ardaloedd hyn trwy gydol y flwyddyn. Ar y llaw arall, mae'n debyg mai'r Cyngor fyddai testun y drwg deimlad yma, nid cymdogion. |

**9b)**

| Nodweddion | Perthnasedd | Yr effaith wirioneddol neu debygol |
|---|---|---|
| **Hil** | Dim effaith | Mae rhai o ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn honni y byddai'r Polisi yn hiliol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ystyriaeth o hil perchnogion yr eiddo petai premiwm yn cael ei godi ar ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor. |
| **Anabledd** | Dim effaith | |
| **Rhyw** | Dim effaith | |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim effaith | |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim effaith | |
| **Crefydd neu gred** | Dim effaith | |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Pwrpas codi premiwm yw i annog perchnogion eiddo gwag hir dymor ac ail gartrefi i ddychwelyd yr eiddo i'r stoc dai lleol, neu i dalu Treth Cyngor ychwanegol. Yn ddibynnol ar benderfyniad y Cyngor, gall hyn fod er mwyn diwallu anghenion tai lleol. Mae cefnogi'r iaith Gymraeg, felly, yn rhan greiddiol o'r polisi yma. |
| **Oedran** | Niwtral ar y cyfan | Dangosodd astudiaeth yn 2013 fod gwneuthuriad demograffig y cymunedau sydd â chyfrannau uchel o ail gartrefi yn wahanol; yn gyffredinol, mae'r boblogaeth breswyl yn 'hŷn'. Mae hyn yn effeithio ar gydbwysedd y cymunedau a bydd yn cael effaith ar wydnwch a chynaladwyedd yr ardaloedd hyn yn y dyfodol.<br><br>Aethpwyd ymlaen i nodi fod proffiliau perchnogion ail gartrefi eu hunain yn awgrymu eu bod yn gyffredinol yn ganol oed neu wedi ymddeol, ac yn gyfoethocach na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fe wnaeth Shelter (2011) (*Taking Stock, an assessment of under utilisation of housing stock in England*) amcangyfrif fod 60% o berchnogion ail gartrefi yn genedlaethol rhwng 45 a 60 mlwydd oed o gymharu â 40% ar draws yr holl perchen-feddiant yn y grŵp oedran hwn.<br><br>Felly, mae tystiolaeth fod y rhai fydd ar eu colled yn ariannol yn hŷn, ond disgwylir y bydd y bobl hŷn sy'n byw yn yr ardaloedd perthnasol trwy'r flwyddyn ar eu hennill gan y bydd y gymdeithas leol yn fwy gwydn a chynaliadwy. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim effaith | |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim effaith | |

## 10) MYND I'R AFAEL Â'R EFFAITH

| | |
|---|---|
| a) | **Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb (sef crynodeb o'r uchod)**<br><br>Dau garfan benodol o'r boblogaeth fydd yn destun y premiwm, sef perchnogion ail gartrefi, a perchnogion tai gwag hir dymor. Ni ystyrir y bydd hynny am effeithio yn anghymesur ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig. |
| b) | **Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma?**<br><br>Dim angen camau pellach. |
| c) | **A oes angen ail-ystyried y cynllun?**<br><br>Nac Oes |

## 11) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU

Pa gamau ydych chi am gymryd i adolygu'r polisi / cynllun / arfer unwaith mae'n cael ei fabwysiadu? Er fod yr asesaid uchod yn adnabod yr effaith posib, rhaid cofio na fydd yr effaith llawn yn cael ei weld tan mae'r polisi ayb yn cael ei weithredu.

| |
|---|
| Bydd rhaid gwneud penderfyniad cyn 31 Mawrth 2017 os am godi premiwm o 1 Ebrill 2018 ymlaen. Byddwn yn ystyried effaith y premiwm yn flynyddol fel rhan o waith y Gwasanaeth Trethi. |

## 12) PENDERFYNU

| |
|---|
| Y Cyngor llawn i benderfynu ar 8 Rhagfyr 2016. |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **8 Rhagfyr 2016** |
| **AELOD CABINET:** | **Y Cynghorydd Ioan Thomas,<br>Aelod Cabinet dros Tai, Gofal Cwsmer a Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb** |
| **TEITL:** | **CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2017/18** |
| **AMCAN:** | **Cadarnhau parhad y Cynllun Lleol cyfredol ar gyfer darparu cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2017** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor ac i'w gymeradwyo ar gyfer 2017/18.

1.2 Ar 1 Ebrill 2013, fel rhan o raglen diwygio lles Llywodraeth San Steffan, diddymwyd Budd-dal y Dreth Cyngor, a cyflwynwyd Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor yn ei le.

1.3 Yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, rhaid i bob awdurdod lleol ddarparu cynllun er mwyn pennu pa ostyngiadau fydd ar gael fel cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor. Mabwysiadwyd cynllun lleol cyfredol Cyngor Gwynedd gan y Cyngor Llawn ar 10 Rhagfyr 2015.

1.4 Mae'r Rheoliadau'n mynnu fod rhaid i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r Cynllun lleol, a hynny erbyn 31 Ionawr cyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol.

1.5 Dan y cynllun lleol, gall trethdalwyr cymwys barhau i dderbyn gostyngiad hyd at 100% o werth eu biliau Treth Cyngor (lle'n derbyn rhai budd-daliadau).

1.6 **Argymhellir fod Cynllun Lleol Cyngor Gwynedd yn parhau heb ei addasu ar gyfer 2017/18.** Mae eglurhaon manwl a rhesymau tu ôl i'r argymhellion dilynol yng nghorff dilynol yr adroddiad hwn.

**2. ARGYMHELLION**

**Gofynnir i'r Cyngor llawn benderfynu yn ffurfiol i –**

**2.1 Barhau i weithredu Cynllun Lleol y Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2017 fel ag yr oedd yn ystod 2016/17. Felly, bydd yr amodau canlynol (a – c isod) ynghylch yr elfennau disgresiwn yn parhau:**

**a) Gweithredu diystyrwch o 100% i bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a hawlwyr oed gweithio fel ei gilydd.**

**b) Peidio cynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r pedair wythnos safonol sy'n y Cynllun Rhagnodedig.**

**c) Peidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r tri mis safonol sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.**

**2.2 Lle'n briodol, dirprwyo'r grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Tai, Gofal Cwsmer a Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb, i wneud mân addasiadau i'r cynllun am 2017/18, ar yr amod na fydd yn newid sylwedd y cynllun.**

**3. GWYBODAETH GEFNDIROL**

3.1 Yn unol â Deddf Diwygio Lles 2013, ers 1 Ebrill 2013 mae'r cyfrifoldeb am drefnu cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor, a'r cyllid sydd ynghlwm ag ef, wedi ei drosglwyddo o'r DWP i awdurdodau lleol yn Lloegr ac i Lywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru.

3.2 Mae Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 yn galluogi'r ddarpariaeth o gymorth cymaint â 100% o'r dreth i'r hawlwyr ac yn ariannu rhan o'r gost berthnasol.

3.3 Cymeradwywyd Cynllun Lleol Cyngor Gwynedd am 2016/17 gan y Cyngor Llawn ar 10 Rhagfyr 2015. Mae'r Rheoliadau yn rheoli gweithrediad cynlluniau gostyngiadau ar draws Cymru gyfan ac wedi'u cynllunio i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cyflwyno cymorth i drethdalwyr Cymreig ar ffurf gyson.

## 4. CYNLLUN GOSTYNGIADAU 2017/18

4.1 Mae'r Rheoliadau (Rheoliad 18) yn datgan fod **rhaid i awdurdod ystyried a ddylai ddiwygio ei gynllun** neu ei amnewid gan gynllun arall **ar gyfer pob blwyddyn ariannol**; rhaid i'r awdurdod wneud unrhyw ddiwygiad yn ei gynllun, neu unrhyw gynllun a amnewidir, **ddim hwyrach na 31 Ionawr** yn y flwyddyn ariannol sy'n rhagflaenu'r flwyddyn ariannol pan fo'r diwygiad neu'r cynllun a amnewidir i gael effaith.

4.2 Mae'r Rheoliadau (Rheoliad 12) yn datgan na ellir dirprwyo'r swyddogaeth o wneud y cynllun i'r Cabinet, a **rhaid ei benderfynu gan y Cyngor llawn**.

4.3 Felly, bwriad yr adroddiad yma yw bodloni'r gofyn i'r Cyngor ystyried a ddylai ddiwygio ei gynllun lleol.

4.4 Mae disgresiwn cyfyngedig o dan y Cynllun Rhagnodedig i gynghorau ystyried y 3 elfen dewisol penodol canlynol. Mae'r elfennau disgresiwn yma'n fwy hael na'r cynllun cenedlaethol.

Pensiynau anabledd rhyfel a phensiynau gweddwon rhyfel
*(argymhelliad 2.1(a) uchod)*

4.5 Mae disgresiwn i gynyddu'r diystyrwch o bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a phobl oed gwaith fel ei gilydd.

Ar hyn o bryd, mae £10 cyntaf pensiwn anabledd a phensiwn gweddwon rhyfel wythnosol yn cael ei ddiystyru dan y rheoliadau. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i ddiystyru hyd at 100% o'r gwir swm dros y £10 cyntaf. Ers 1 Ebrill 1996, penderfynodd Cyngor Gwynedd, fel y mwyafrif o Awdurdodau eraill yng Nghymru, ddiystyru 100% o bensiynau rhyfel dros £10. Yn 2017/18, amcangyfrifir y bydd y diystyrwch hwn o bensiynau rhyfel yn costio oddeutu £33,000 i'r Awdurdod mewn gostyngiadau Treth Cyngor. Dyma yw sefyllfa 2016/17, felly mae'r ddarpariaeth berthnasol eisoes wedi'i gynnwys yn y gyllideb sylfaenol ac yn Strategaeth Ariannol 2017/18.

Argymhellir fod caniatáu'r disgresiwn lleol hwn yng Ngwynedd yn parhau.

Cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bobl oed gwaith
*(argymhelliad 2.1(b) uchod)*

4.6 Mae disgresiwn i gynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bobl oed gwaith o'r pedair wythnos safonol wedi iddynt ddychwelyd yn ôl i'r gwaith, hynny os iddynt fod wedi derbyn budd dal perthnasol am o leiaf 26 wythnos.

Ni cheir unrhyw gyfyngiad ar y cyfnod hiraf gallant gael eu hymestyn iddo ond byddai goblygiadau ariannol. Amcangyfrifir fod cost 4 wythnos safonol o gyfnod estynedig oddeutu £24,000.

Argymhellir parhau i beidio addasu'r pedair wythnos o gyfnod estynedig sy'n y Cynllun Rhagnodedig.

Cyfnod ôl-ddyddio ceisiadau hwyr
*(argymhelliad 2.1(c) uchod)*

4.7 Mae disgresiwn i gynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio cais hwyr tu hwnt i'r cyfnod tri mis safonol. Ni cheir unrhyw gyfyngiad ar y cyfnod hiraf gallant gael eu hymestyn iddo. Amcangyfrifir mai £23,000 yw cost caniatáu'r ôl ddyddio cyfredol (3 mis).

Mae'r Cynllun Gostyngiadau presennol yn caniatáu ôl-ddyddio ceisiadau hwyr am gyfnod hyd at dri mis. Byddai ymestyn y cyfnod yn cynyddu cost y cynllun.

Argymhellir parhau i beidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio o'r tri mis safonol sy'n y Cynllun Rhagnodedig.

**4.8 Mae'r argymhellion uchod ar gyfer 2017/18 yn unol â threfniadau cyfredol 2016/17.**

## 5. YMGYNGHORI

5.1 Petai'r Cyngor am addasu ei gynllun lleol – i bob pwrpas trwy newid y 3 maes o ddisgresiwn lleol a ddisgrifir ym mharagraffau 4.5 i 4.7 – byddai'n rhaid iddo ymgynghori gydag "unrhyw un sydd â diddordeb".

5.2 Bu ymarferiad ymgynghori hynod drylwyr a chynwysedig yn Rhagfyr 2012 / Ionawr 2013 ar gyfer cynllun 2013/14, a cynhaliwyd ymgynghoriad pellach o 29/11/13 tan 10/01/14 ar gynllun 2014/15.

5.3 Gan nad oes bwriad i addasu'r Cynllun Lleol eleni, nid oes angen ymgynghori pellach.

## 6. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

6.1 Ar wahân i'r ariannu ar lefel y Cyngor, nid yw'r cynllun a gynigir ar gyfer 2017/18 yn cynnwys unrhyw newidiadau sylweddol o'r cynllun sy'n weithredol ar hyn o bryd. Felly, ni gynhaliodd Cyngor Gwynedd astudiaeth Asesiad Effaith Cydraddoldeb lleol eleni. Gwnaethpwyd hynny ar gyfer 2013/14, pan newidiwyd y drefn o'r Budd-dal Treth Cyngor i'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor.

6.2 Cyfyngedig iawn yw'r disgresiwn lleol i addasu'r cynllun cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad effaith 'rheoleiddiol', sy'n cynnwys asesiad effaith cydraddoldeb, a deallaf fod y darganfyddiadau yn unol â'u disgwyliadau.

## 7. ADNODDAU

7.1 Mae costau'r Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor wedi eu cynnwys yn y 'setliad' grant i lywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru, ond dylid nodi nad yw'r setliad yma yn talu'r Cynllun Gostyngiadau yn llawn.

7.2 Bydd rhaid i'r Cyngor ariannu unrhyw gostau'r Cynllun nad ydynt wedi eu cynnwys yn y setliad, yn ogystal â chwyddiant, fydd ddim yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. O safbwynt chwyddiant, bydd cost y cymorth yn cynyddu'n gymesur â'r codiad yn y Dreth Cyngor.

7.3 Mae awdurdodau lleol yn derbyn cyfraniad tuag at gostau'r cynllun o fewn y setliad blynyddol, ond ers sefydlu'r cynllun yn 2013 nid yw'r setliad wedi adlewyrchu'r gwir gost lawn. Cost tybiannol y Gostyngiadau Treth Cyngor yng Ngwynedd yn 2016/17 (yn ôl rhaniad tybiannol cyfanswm yr Asesiadau Gwariant Safonol rhwng gwasanaethau yn nhablau'r setliad amodol) yw £8.884m, ond amcangyfrifir y bydd y gwir wariant oddeutu £9.3m. Cost tybiannol y Gostyngiadau Treth Cyngor yng Ngwynedd yn setliad drafft 2017/18 yw £8.949m, sydd yn gynnydd bychan. Nid oes dewis ond wynebu'r sefyllfa yma, a bydd hyn wedi'i ystyried yn briodol a'i ffactorio mewn i'r Strategaeth Ariannol sy'n adnabod y bwlch ariannol yng nghyllideb 2017/18.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyngor llawn |
| **DYDDIAD** | 8 Rhagfyr 2016 |
| **TEITL** | Addasiadau Hawliau Dirprwyedig a Rheolau Gweithdrefn Ariannol. |
| **PWRPAS** | Hysbysu aelodau'r Cyngor o newidiadau a wnaed i Gynllun Dirprwyo Swyddogion y Cyfansoddiad.<br><br>Mabwysiadu addasiad i Reolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor |
| **ARGYMHELLIAD** | 1. Newid paragraff 16. 6 37 o Reolau Gweithdrefnol Ariannol y Cyngor yn unol â'r adroddiad.<br><br>2. Nodi'r addasiadau i'r Cynllun Dirprwyo Swyddogion. |
| **AWDUR** | Iwan G D Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro |

**1. Cefndir**

Fe fabwysiadwyd y Cyfansoddiad diwygiedig gan y Cyngor yng Ngorffennaf 2014. Roedd yn seiliedig ar gyfansoddiad model oedd wedi ei ddatblygu yn genedlaethol. Fodd bynnag wedi 2 flynedd o weithredu'r Cyfansoddiad roeddwn o'r farn ei bod yn amserol cymryd trosolwg o'i weithrediad ac agor trafodaeth ar hyn. Yr amcan yw sicrhau ei fod yn gweithio i'r Cyngor ac adnabod ardaloedd ble roedd angen eglurdeb gwell neu addasu..

**2. Addasu Rheolau Gweithdrefn Ariannol**

Wrth symud ymlaen i gynnal yr adolygiad daeth rhai materion i'r amlwg allai gael sylw yn syth, yn benodol gofynnwyd i addasu'r Rheolau Gweithdrefnol Ariannol.

Ar hyn o bryd mae darpariaeth yn y Rheolau Gweithdrefnol Ariannol fel a ganlyn

16.6.37 Yn sgil derbyniadau cyfalaf a ddaw o waredu eiddo, heblaw lle mae penderfyniad i'r gwrthwyneb gan y Cabinet fe aiff 20% i'r adran (hyd at uchafswm of £20,000) a'r gweddill i gronfa gorfforaethol. Bydd gan y Prif Swyddog hawl i ddefnyddio derbyniadau cyfalaf sydd o fewn rheolaeth yr adran lle bo gwerth y defnydd hwnnw hyd at £50,000 yn unol â'r rheolau ynglŷn â throsglwyddiadau yn Rhan 3. Bydd angen cymeradwyaeth Cabinet ar gyfer defnydd o'r fath lle bo'r swm dros £50,000.

Mae'n deg dweud fod y drefn hon wedi ei sefydlu ar adeg be roedd sefyllfa ariannol y Cyngor yn gwbl wahanol i'r hyn a welwn heddiw. Bryd hynny hefyd roedd llawer llai o reolaeth ganolog ar faterion Eiddo ac roedd yn perthyn i gyfnod cyn mabwysiadu ein Cynllun Rheoli Asedau.

Erbyn heddiw mae holl eiddo'r Cyngor wedi ei ddatgan yn adnodd corfforaethol ac mae'n cael ei reoli'n ganolog. Mae'r sefyllfa ariannol wedi newid yn gyfan gwbl wrth gwrs a prin yw'r anogaeth sydd angen ei roi i adrannau ryddhau eiddo a danddefnyddir erbyn heddiw gan y bydd yn eu galluogi i wneud arbedion refeniw.

Gyda'r Cyngor yn wynebu lleihad yn y cyllid cyfalaf fydd ar gael i wireddu'r blaenoriaethau fydd yn ein rhaglen gyfalaf, mae angen cymryd y cyfle i sicrhau ein bod yn uchafu'r cyfalaf fydd ar gael i wireddu'n blaenoriaethau yn dilyn gwerthu asedau. Yn sgil y drefn bresennol o ganiatáu i Adrannau gadw 20% o bob derbynneb cyfalaf (hyd at uchafswm o £20,000), bu i £877,000 gael ei ddyrannu ar gyfer blaenoriaethau Adrannol yn hytrach na'i gyfeirio yn uniongyrchol tuag at y blaenoriaethau sydd wedi eu cynnwys yn ein rhaglen gyfalaf. Os fydd gan Adran gais teilwng i gadw cyfran o dderbynneb cyfalaf yn y dyfodol yna bydd modd gwneud cais penodol. Bryd hynny bydd Aelodau yn gallu cloriannu'r buddion a'r risgiau ynghlwm i'r cynllun penodol hwnnw.

Y newid a argymhellir yw dileu rhan gyntaf y paragraff:

16.6.37 ~~Yn sgil derbyniadau cyfalaf a ddaw o waredu eiddo, heblaw lle mae penderfyniad i'r gwrthwyneb gan y Cabinet fe aiff 20% i'r adran (hyd at uchafswm of £20,000) a'r gweddill i gronfa gorfforaethol.~~ Bydd gan y Prif Swyddog hawl i ddefnyddio derbyniadau cyfalaf sydd o fewn rheolaeth yr adran lle bo gwerth y defnydd hwnnw hyd at £50,000 yn unol â'r rheolau ynglŷn â throsglwyddiadau yn Rhan 3. Bydd angen cymeradwyaeth Cabinet ar gyfer defnydd o'r fath lle bo'r swm dros £50,000.

Adroddwyd ar y mater yma i'r Pwyllgor Archwilio ar y 1af o Ragfyr gan geisio eu barn ar y newid arfaethedig ac adroddir ar lafar ar hyn yn y cyfarfod.

**3. Hawliau Dirprwyedig Swyddogion**

Mae'r cyfansoddiad yn caniatáu i Arweinydd y Cyngor addasu'r Cynllun Dirprwyo sydd ynglŷn â phwerau gweithredol (Adran 5 para 5.8.3). Mae gofyn ei fod yn adrodd ar y newidiadau i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor wedi'r penderfyniad.

Yn dilyn cychwyn proses adolygu'r Cyfansoddiad amlygwyd angen i addasu a diweddaru hawliau dirprwyedig swyddogion yn sgil deddfwriaeth newydd, ac ad-drefnu mewnol.

**3.1 Pennaeth Cefnogaeth Corfforaethol**

Yn dilyn ad-drefnu mewnol trosglwyddwyd rhai Unedau oddi wrth Bennaeth Oedolion Iechyd a Llesiant i gyfrifoldeb Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol. Yn sgil hynny mae angen diwygio'r cynllun dirprwyo i adlewyrchu'r newid yma. Fe nodir y pwerau sydd wedi eu trosglwyddo yn Atodiad 1. Yn yr un modd bydd y cyfrifoldebau yma yn cael eu diddymu o gyfrifoldebau Pennaeth Oedolion Iechyd a Llesiant.

**3.2 Penaethiaid Oedolion Iechyd a Lles a Phennaeth Plant a Chefnogi Teulu.**

Yn dilyn newidiadau statudol a gyflwynwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ( Cymru) 2014 mae angen addasu'r hawliadau dirprwyedig i adlewyrchu dyfodiad y Ddeddfwriaeth newydd. Mae hawliau dirprwyedig y Swyddogion wedi eu drafftio mewn modd

sydd yn cwmpasu'r swyddogaethau eisoes ond ble mae cyfeiriad penodol at y Ddeddf mae angen sicrhau fod y dirprwyo yn gyfredol. Fe nodir y newidiadau yn Atodiad 2.

**Argymhelliad :**

1. Yn ddarostyngedig i farn y Pwyllgor Archwilio newid paragraff 16.6.37 y Rheolau Gweithdrefnol Ariannol yn unol â'r adroddiad.

2. Nodi'r newidiadau i Hwaliau Dirprwyedig Swyddogion yn Adran 13 Rhan 3 o'r Cyfansoddiad. .

**Iwan G D Evans**

**Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro**

**Atodiad 1.**

## 4. PENNAETH CEFNOGAETH CORFFORAETHOL

*Yn y "Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau" yn Atodiad 1 i Adran 13 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw'r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.*

**Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cyngor**

4.1 Gweithredu fel Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd

4.2 Yr hawl i awdurdodi aelodau i fynychu seminarau neu gynadleddau allanol nad ydynt ar y rhestr gymeradwy

4.3 Penderfynu ar ran y cyflogwr ar gam 1 o unrhyw apêl dan drefn datrys anghydfod y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cabinet**

4.4 Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol :-

- Rhaglen Wella
- Blaenoriaethau
- Trosolwg polisi
- Cynllun Integredig Sengl
- Caffael
- Craffu
- Ymchwil
- Diogelwch Cymunedol
- Gwasanaeth democrataidd.
- Cynllun Cydraddoldeb
- Cynllun Iaith

- Cyfieithu
- Cefnogaeth Cabinet
- Amodau a thelerau gwaith
- Cysylltiadau diwydiannol
- Hyfforddi a datblygu staff
- Y drefn recriwtio a phenodi
- Cyfrifoldebau'r cyflogwr mewn perthynas â iechyd a diogelwch.
- Argraffu
- **Cyswllt cwsmer (Galw Gwynedd, Siop Gwynedd, Gwefan y Cyngor)**
- **Rheoli gwybodaeth**
- **Cofrestru genedigaethau, marwolaethau a phriodasau**

4.5 Bod yn swyddog priodol ar gyfer llofnodi ceisiadau am wiriad gyda'r Biwro Cofnodion Troseddol.

4.6 Yr hawl i roi caniatâd dan Adran 30 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (y defnydd o orchmynion gwasgaru).

4.7 Gweithredu pwerau'r Cyngor dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 mewn perthynas â phenodi aelodau i wasanaethu ar bwyllgorau.

4.8 Penderfynu ar geisiadau ailraddio (i'w weithredu trwy'r gyfundrefn arfarnu swyddi).

4.9 **Bod yn swyddog priodol at ddibenion cofrestru genedigaethau marwolaethau a phriodasau.**

4.10 **Gweithredu pwerau'r Cyngor dan Ddeddf Priodasau 1994 a Deddf Partneriaeth Sifil 2004.**

4.11 **Awdurdod I gymeradwyo eiddo ar gyfer gweinyddu priodasau a chofrestru partneriaethau sifil.**

**ATODIAD 2**

## 8. Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant

*Yn y "Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau" yn Atodiad 1 i Adran 13 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw'r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.*

**Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cyngor**

Dim

**Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cabinet**

8.1 Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:-

- Gwasanaethau Pobl hyn
- Iechyd Meddwl
- Anableddau corfforol
- Anableddau Dysgu
- Gwasanaethau preswyl a dydd
- Gofal cartref
- Uned Hawliau Llês
- Tim Troseddu Ieuenctid
- Digartrefedd
- Gorfodaeth tai preifat
- Grantiau tai ac adnewyddu
- **Diogelu Oedolion**

8.2 Gweithredu fel y "person cyfrifol" at ddibenion Deddf Safonau Gofal 2000

8.3 Gweithredu pwerau dan yr holl Ddeddfau a restrir yn Atodlen 1 Deddf Awdurdodau Lleol (Gwasanaethau Cymdeithasol **1970 ac Atodlen 2 o Ddeddf Gwasnanaethau Cymdeithasol a Llesiant ( Cymru) 2014**

8.4 **I awdurdodi swyddogion priodol i weithredu pwerau'r Cyngor dan Adran 127 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ( Cymru) 2014.**

8.5 Gweithredu swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â digartrefedd yn unol â Rhan 8 - Deddf Tai 1996.

8.6 Caniatau gwerthiannau cyn dai Cyngor i bobl sy'n cwrdd ar amodau statudol a derbyn neu wrthod cynnig i brynu yn ôl cyn dŷ Cyngor dan Adran 157 Deddf Tai 1985.

8.7 Gweithredu swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â thai anaddas dan Ddeddf Tai 1985 a Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

8.8 Gweithredu pwerau'r Cyngor i gyflwyno rhybuddio a chymryd camau gorfodaeth mewn perthynas â thai aml-anedd.

8.9 Gweithredu pwerau gorfodaeth yn y sector tai preifat.

8.10 Cymeradwyo neu wrthod a gweinyddu ceisiadau am grantiau dan y Ddeddf Grantiau Tai Adeiladu ac Adnewyddu 1996.

8.11 Gweithredu cynllun disgownt trosglwyddadwy.

8.12 Gweithredu swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â draeniad, cyflenwad dŵr a materion iechyd amgylcheddol eraill dan Ddeddf Rheoliadau Adeiladu 1984 a niwsans dan Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990.

8.13 Gweithredu swyddogaethau'r Cyngor dan Ddeddf Tai 2004.

8.14 Cyflwyno rhybuddion eiddo dan Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925.

## 9 Pennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd

*Yn y "Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau" yn Atodiad 1 i Adran 13 o'r Cyfansoddiad, nodir lle mae swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth wedi eu dirprwyo i Brif Swyddogion. Lle nad oes prif swyddog wedi ei enwi yn y ddogfen honno nid yw'r pŵer wedi ei ddirprwyo, ond yn hytrach fe'i cedwir gan y pwyllgor.*

**Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cyngor**

Dim

**Swyddogaethau a ddirprwyir gan y Cabinet**

9.1 Gweithredu ar sail dydd i ddydd ac o fewn y cynllun yn y meysydd canlynol:-

- Gwasanaethau plant
- Tim troseddwyr ifanc

9.2 Gweithredu pwerau dan yr holl Ddeddfau a restrir yn Atodlen 1 Deddf Awdurdodau Lleol (Gwasanaethau Cymdeithasol) 1970 **ac Atodlen 2 Deddf Gwasanethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**

9.3 Bod y "Penderfynwr" ar ran yr asiantaeth fabwysiadu

# Eitem 13

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyngor Llawn |
| **DYDDIAD** | 08/12/2016 |
| **TEITL** | Trefniadau Etholiadau Llywodraeth Leol 2017 |
| **PWRPAS** | Codi ymwybyddiaeth Aelodau'r Cyngor o'r trefniadau sy'n cael eu datblygu ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol, Mai 2017 |
| **AWDUR** | Cynghorydd Dyfrig Siencyn |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | Vera Jones<br>Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |

## 1. CEFNDIR

1.1 Fel mae'r aelodau yn ymwybodol, cynhelir etholiadau Llywodraeth Leol ar y 4ydd o Fai, 2017. Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi bod yn cynllunio a pharatoi er mwyn sicrhau fod trefniadau'r Cyngor mewn lle ar gyfer yr aelodau a fydd wedi eu hethol ym mis Mai 2017.

1.2 Sefydlwyd grwp bychan o aelodau sydd wedi bod yn arwain ar sefydlu'r trefniadau. Bu i'r grwp adnabod tair ffrwd i'r gwaith paratoi, sef:

- Paratoi ymgeiswyr
- Dyddiau Croeso a'r rhaglen hyfforddiant
- Ystyriaethau technoleg

1.3 Wrth ddatblygu'r rhaglenni yn y tri maes, mae'n bwysig nodi fod yr aelodau wedi ystyried negeseuon a gwersi yn dilyn trefniadau 2012, negeseuon gan aelodau etholedig sydd wedi deillio o'u cyfweliadau datblygu personol, yn ogystal ag ymgynghori gyda'r Pwyllgor yn ei gyfanrwydd a Grwp Busnes y Cyngor.

1.4 Noder fod y gwaith yn adeiladu ar waith yr is-grwp amrywiaeth, sydd wedi bod yn gweithio i annog unigolion o wahanol gefndiroedd i sefyll mewn etholiadau llywodraeth leol ers cyfnod. Crewyd fideo byr a syml i annog unigolion i sefyll fel Aelod Etholedig, ac mae wedi ei osod ar y safle we. Byddwn yn cael cyfle i wylio'r fideo yn ystod y cyfarfod.

## 2. Sesiynau Paratoi Ymgeiswyr

2.1 Pwrpas y sesiynau paratoi yw rhoi cyfle i ddarpar ymgeiswyr ddod i gyfarfod â swyddogion ac aelodau o'r Cyngor i gael cyfle i gael mwy o wybodaeth am y disgwyliadau arnynt, a chael cyfle am sgwrs anffurfiol. Mae'r sesiynau wedi eu trefnu mewn ymateb i sylwadau gan nifer o Aelodau nad oeddent yn glir o beth i'w ddisgwyl yn dilyn ennill etholiad.

2.2 Mae sesiwn wedi ei threfnu ym mhob un o'r tair ardal fel a ganlyn:

| DYDDIAD | LLEOLIAD | AMSER |
|---|---|---|
| 17eg Ionawr, 2017 | Frondeg, Pwllheli | 6 – 8 yr hwyr |
| 18fed Ionawr, 2017 | Penarlag, Dolgellau | 6 – 8 yr hwyr |
| 19eg Ionawr, 2017 | Siambr Dafydd Orwig, Caernarfon | 6 – 8 yr hwyr |

2.3 Er gwybodaeth, byddwn yn codi ymwybyddiaeth i'r sesiynau trwy safle we'r Cyngor a'r cyfrifon trydar a facebook, trwy gysylltu gyda'r Cynghorau Cymuned a thrwy'r grwpiau gwelidyddol. Bwriedir ymgynghori gyda'r aelodau yn y Fforymau Ardal ar sut i godi mwy o gyhoeddusrwydd hefyd.

2.4 Ar yr un pryd, rydym yn ymwybodol na fydd pawb sy'n ystyried sefyll yn dymuno mynychu cyfarfod cyhoeddus. Mae nifer yn dymuno chwilio am wybodaeth ar lein y dyddiau hyn, ac felly mae gwaith wedi ei wneud i wella y wybodaeth sydd ar safle we'r Cyngor ar gyfer rhai sy'n ystyried sefyll. Mae'r wybodaeth i'w weld drwy ddilyn y ddolen a ganlyn:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Cynghorwyr-a-phwyllgorau.aspx

2.5 Mae'r wybodaeth wedi ei gyhoeddi dan y teitlau

- Rộl Cynghorydd
- Ydw i'n gymwys?
- Sut i sefyll etholiad
- Ar ol eich ethol
- Cyfleusterau a chefnogaeth i Gynghorwyr

**3. Dyddiau Croeso a'r rhaglen hyfforddiant**

3.1 Cynhelir y dyddiau croeso ar gyfer yr holl aelodau ar ddydd Mawrth, 9fed o Fai a dydd Mercher, 10fed o Fai yng Nghaernarfon.

3.1 Mae'r trefniadau ar gyfer 2017 yn bur wahanol i'r hyn a gafwyd yn y gorffenol. Mae'r dyddiau yn gyfuniad o sesiynau ffurfiol ar y cyd i bawb, a sesiynau anffurfiol mewn grwpiau llai. Maent amrywiaeth hefyd o gyflwyniadau ffurfiol, gyda phwyslais ar arfogi aelodau i allu dod o hyd i wybodaeth eu hunain. Ceiswyd adnabod y prif ffactorau sy'n angenrheidiol i aelodau eu cael er mwyn eu harfogir ar gyfer y dyddiau cyntaf.

3.2 Yn ogystal, mae wedi bod yn angenrheidiol ceisio adnabod rhaglen hyfforddiant pellach i'r dyddiau croeso. Mae gwaith yn digwydd ar hyn o bryd i geisio adnabod gwahanol ddulliau o ddysgu er mwyn hwyluso hynny i aelodau ee e-ddysgu, webinarau, sesiynau byr yn y fforymau ardal ayyb. Byddwn hefyd yn

cyd-weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu rhai sesiynau ar y cyd ar draws Gogledd Cymru.

## 4 Ystyriaethau technoleg

4.1 Gan fod y Cyngor yn ceisio annog cyfathrebu yn electroneg lle bo modd, mae'r grwp hefyd yn ystyried y gofynion o ran darpariaeth electroneg ar gyfer aelodau etholedig yn dilyn etholiadau 2017. Mae'n ofynol gwneud hyn gan fod y ddarpariaeth ipads presenol yn cyrraedd pen eu hoes wedi cyfnod o bum mlynedd.

4.2 Er mwyn sicrhau fod y grwp yn dod i'r casgliad cywir, mae'r aelodau wrthi'n treialu cyfarpar gwahanol ar hyn o bryd, gan eu defnyddio o ddydd i ddydd er mwyn gallu eu hasesu yn llawn. Bydd y grwp yn gwerthuso'r cyfarpar erbyn diwedd Ionawr, gan ystyried nifer o wahanol ffactorau yn yr asesiad cyn dod i gasgliad.

## 5 ARGYMHELLION

5.1 Gofynnir i Aelodau'r Cyngor dderbyn cynnwys yr adroddiad